CYDYMMAITH I'R

ALLOR,

YN DANGOS

Natur ac Angenrheidrwydd o ymbarattoi i'r SACRAMENT mewn Trefn i ni dderbyn yn deilwng y

CYMMUN SANCTAIDD.

Ym-mha un y Profir yr holl ofn a'r Arſwyd (ynghylch Bwytta ac yfed yn annheilwng, ac i fod yn Euog o Ddamnedigaeth i ni ein hunain wrth hynny) yn ddi-ſail; ac yn anwarantedig.

At yr hyn chwanegwyd *Gweddiau* a *Myfyrdodau*, i Ymbarattoi i dderbyn y *Sacrament*, fel y mae Eglwys *Loegr* yn gofyn gan ei Chymmunwyr.

Golchaf fy Nwylo mewn diniweidrwydd, a'th Allor, O Arglwydd, a amgylchynaf, Pſam. xxvi. 6.

Gwedi ei Gyfieithur i'r Gymraeg, *gan* L. E,

ARGRAPHWYD in y MWYTHIG, gan STAFFORD PRYSE. 1762.

Peter Williamson 1801 the Island
of more merited a

Y Rhag ymadrodd.

Y Rheſwm Arferol y mae Dynion yn ei roddi am eu bod heb ddyfod mor fynych i'r Cymmun Sanctaidd ac y mynnent, i'w eu harſwyd o Fwytta ac Yfed yn Annheilwng, ac yn ddilynol, o gyrchu eu Damnedigaeth eu hunain wrth hynny; gan hynny bwriad y Traethawd byrr hwn ydyw, I ddangos pa beth ydyw ymbarattoi i'r Sacrament hwnnw, yr hyn ſydd gwbl anghenrheidiol i wneuthur dynion yn gyfrannogion teilwng o Swpper yr Arglwydd, fel y bo i ddynion ddyfod heb yr ofn lleiaf o Fwytta ac Yfed damnadigaeth iddynt eu hunain: I'r perwyl hwnnw, rwy 'n deall nad oes un Rheol, na dim Dyſceidiaeth yn fwy diogel, ac yn rhoi mwy o hyfforddiant na Chatechiſm ein Heglwys, yr hwn mi a wnes fy Ngoreu er ei egluro, a'i gymmhwyſo er defnydd a lleſhâd i'r gwaelaf ei Ddealltwriaeth.

Y rhan ddiwaethaf o'r Traethawd hwn ſy'n cynnwys Gweddiau *a* Myfyrdodau *i'n parattoi i dderbyn y* Sacrament, *ac er eu bod yn ychydig o Nifer, etto rwy 'n gobeithio eu bod yn cwbl atteb pob un o'r Rhannau hynny o ddyledſwydd y Cymmunwr, yn ol y*

Rheol honno a'r Llwybr y mae'n Heglwys wedi dewis i ſod ein Cyfarwyddwr a'n Cydymmaith i'r Allor Sanctaidd. Trwy Chwanegu y Pſalmau hynny a'r Llithoedd *priod a* gyſylltwyd at *bob Gweddi neilltuol a Myſyrdod, ſe ddichon y Cymmunwr helaethu ei Ddefoſiwn i ba radd neu helaethrwydd bynnag y bo'n ewyllyſio; trwy'r modd hyn y mae gennych gymmaint o ddefnydd i wneuthur eich* paratoad *yn effeithiol yn y Llyfran bychan hwn, ac mewn un Traethawd arall o'r ſath yma.*

W. V.

CYDYMMAITH I'R

ALLOR.

YR holl Fendithion hynny yr ŷm ni yn awr yn eu mwynhau, ac yn gobeithio cael eu derbyn oddi wrth yr Holl-alluog Dduw yn y Byd a ddaw, a bwrcaſwyd ni, a rhaid eu mwynhau trwy Haeddedigaethau a Chyfryngiad y Sanctaidd IESU, yr hwn a oſododd, ac a ordeiniodd Sanctaid Ddirgeledigaethau fel Gwyſtlon o'i gariad, a gwaſtadol gôf am ei Angau a'i ddioddefaint, er mawr ac anherfynawl gyſur i ni. *Luc* xxii. 19. 1 *Cor*, xi. 24. Ond yno rhaid i ni gofio nad wy'r Lleſhâd a'r Bendithion hyn a (ynnillodd Mâb Duw i ni) yn unlle gwedi eu haddo, ond tan ammod ein bod nin 'n hunain gwedi cwblgymmhwyſo iddynt, Sacrament Swpper yr Arglwyd yw cadarnhâd hynod o'n Cyfammod Bedydiol; ym mha un y

mae Duw oi ran ef gwedi addo 'n ffyddlon bardwn a maddeuant pechodau ir holl wir Edifeiriol, a ninneu ar ein rhan ninnau, ydym yn hynny ar gyhoedd yn ymrwymo i fod yn *ffyddlon ac yn ufudd iddo*, 2 Tim. ii. 19. Cyn hynny nid allwn ni addo i ni'n hunain ddim Lleſhâd neu fydd o gyfrannu o'r Ddefod ar Cyfammod Cyſſegrbarchus hwn, rhwng Duw a ni, rhaid i ni ymegnîo (hyd eithaf ein gallu) i gael meddiannu 'n heneidiau ar holl Gynneddfau duwiol hynny y mae y Sacrament hwn o Swpper yr Arglwydd yn ei ofyn i'n gwneud ni 'n Gyfrannogion teilwng o hono.

A pha rai ydynt yw bwriad y Traethawd hwn; ym mha un mi a wnaf fyngoreu i ddangos beth ydyw 'r Parattoad hynny o'r Galon ar Meddwl, yr hyn ſydd raid i'n cymmhwyſo ni i deilwng Gyfrannogiad o'r Sacrament Bendigedig: Ac yn hyn mae 'ngobaith i ſymud ymaith yr holl arſwydau hynny ar ammheuon ſy'n codi yn ein meddyliau, ynghylch Bwytta ac Yfed yn Annheilwng, ac o gyrchu 'n damnedigaeth wrth hynny, megis allan o Reſwm ac nid i'w wrantu; i wneuthur hyn, mi a gymmeraf achlyſur i egluro 'r rhan honno o Gatechiſm ein Heglwys, a amcanwyd er mwyn ein Athrawiaeth gyda'r peth ſy'n perthyn i'r Ddyledſwydd hon o Ymbarattoi i'r Sacrament, ſef.

H. Pa beth ſydd raid ir rhai a ddel i Swpper yr Arglwydd i wneuthur.

A. *Eu holi eu hunain a ydynt hwy wir Edifeirio am eu Pechodau a aeth heibio; ac yn ſiccr amcan dily*

ilyn Buchedd newydd, a oes ganddynt ffydd fywiol yn nhrugaredd Dduw drwy Grift? gyda diolchus gof am ei Angau ef, ac a ydynt hwy mewn Cariad Perffaith a phob Dyn. Dyma 'r Parattoad Sacramentaidd hynny y mae'n Heglwys (o fewn mor ychydig eiriau ac i'w boffibl) gwedi dewis i fod ein Cydymmaith neu 'n cyfarwyddwr i'r Allor Sanctaid: Gan hynny Dyledfwydd y Cymmunwr Duwiol fy'n fefyll yn y Chwe rhan neilltuol hyn yn canlyn. 1. Hunan Ymholiad, i holi eu hunain. 2, Edifeirwch tu ag at Dduw, a ydynt hwy yn wir Edifeiriol am eu holl Bechodau a aeth heibo. 3. Duwiol amcanion neu lawnfwriad i ddilyn buchedd newydd, yn ficcr amcanu dilyn buchedd newydd. 4. Ffydd yn nhrugaredd Dduw trwy Grift, Bod ganddynt Ffydd fywiol, *&c.* 5. Diolchus gôf am ei Angau, *6ed.* ac yn ddiweddaf, Cariad diffuant, neu gariad Perffaith i holl Ddynol ryw, ac i fod mewn *Cariad perffaith a phob dyn.*

Y Rhan gyntaf o Ddyledfwydd Cymunwr ydyw Hunan Ymholiad: Dyledfwydd nid yn unig a ofodwyd drwy Ddynol Ordinhâd; ond hefyd a Orchymmynwyd gan St. *Paul, Eithr holed dyn ef ei hun ac felly bwyttaed o'r Bara ac Yfed o'r Cwppan,* 1 Cor. xi. 28. Gan Arwyddoccau na ddylai un dyn ryfygu bwytta o'r Bara hwnnw, ac Yfed o'r Cwppan hwnnw: heb ymbarattoi yn gyntaf; os ydyw efe 'n meddwl diangc rhag yr un Farnedigaeth hono, neu yr Ddamnedigaeth yr oedd y *Corinthiaid* hyn yn eu tynnu arnynt eu hunain, am eu hammharchus, drygionus anrhefnus ymddygaid

ddygiad wrth dderbyn y Sacrament; A hyn oedd achos o rybudd neu argyoeddiad St. *Paul*: *Yr hwn ſyd yn bwytta ac yn Yfed yn annheilwng*, (medd yr Apoſtol) *ſydd yn bwytta ac.*

¶ *Yn Yfed Barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu Corph yr Arglwydd. Adnod*, 26.

¶ *Noda*, Nid yw y Gair hwn Barnedigaeth yn Arwyddocau tra-gywyddol ddamnedigaeth, ond yn y gwrthwyneb, rhyw goſpedigaeth. Barn Amſerol (fel y cewch ef yn-ghwrr Dalen eich Bibl) megis Cle-fyd neu Farwolaeth, a pha rai yr oedd y Ddinas hon o *Gorinth* yn cael ei Chyſtuddio, o ran eu bod yn mawr gamarferu, ac yn halogi 'r Ordinhâd Cyſſegr-barchus hon; felly y pechodau a argyoeddir yma [ſef glwthineb a Meddwdod ac ymryſon, *Adn.* xxi. 22.] a'r Barnedigaeth a fygythir yma, nid yw 'n perthyn i ni, oddigerth y gellid profi fod neb o honom yn euog o'r fath ddrygioni, fel y *Corinthiaid* hyn, yr hyn rwy'n credu ni bu dyn erioed, neu ni chynhwyſyd mono i neſau at Fwrdd yr Arglwydd yn y fath annrhefn fel y gwnaethant hwy, os byddai dynion mor ddrygionus ac halogedig.

Ond fel y bo i ni gyflawni y ddyledſwydd hon o ymbaratoi 'n hunain gyſtal megis ac i ragflaenu y cyffelyb enbydrwydd, *meddyliwn am ein diwedd* (fel y mae'r gwr doeth yn cynghori) *ac yno ni phechwn ni byth.* Eccluſ. vii. 36. Yn gyntaf, fel y bo i ni ddyfod i'r wledd Nefol hon, yn Sanctaidd, *ar Wiſg Briodas am danom*, Math. xxii.

xii. 11. Rhaid i ni chwilio 'n Calonau, a phrofi
'n Cydwybodau, nid yn unig hyd oni chanfy-
ddom ein Pechodau ond hyd oni chaſâom hwynt,
ac yn lle 'r brattiau bydron hynny o'n cyfiawnder,
rhaid i ni ein gwiſco 'n hunain oddi mewn a
phur a duwiol feddylfryd; *ſef y Lliain main*
hwnnw Cyfiawnder y Sainct, Datc. xix. 8. Ar
harddwch hwn y cymmhwyſir yr Eneidiau Sanct-
aidd i Gymdeithas y Nefol gwmpeini a gyfar-
fyddir yn y wledd Gyſſegrbarchus hon. *Yn Ail*,
Diben arall neu fwriad yr ymbarattôad manwl
yma, i'w, i ni allu bôd yn gymmeradwy gan
Dduw megis teilwng Gymmunwyr; *fel y byddo*
eſe yr hwn ſydd yn gwybod dirgeloedd ein Calonau,
ac nid oes dim anamlwg yn ei Olwg ef, eithr pob
peth ſydd yn noeth ac yn agored i'w Lygaid ef, am
yr hwn yr ydym yn ſôn, Pſal. xliv. 21. Heb. iv.
13. Yn gwbl fodlon i'n diffuant Edifeirwch;
ac fel y gallo 'r Brenin yr hwn ſy'n dyfod i mewn
i weled y *Gwahoddedigion*, Mat. xxii 11. (er nad
ydym felly i ddywedyd yn eglur) ein cyfrif yn
deilwng i gael ffafor yn ei olwg ef. Ar môdd
i gael y fendith mor fawr, yr athrawiaethau hyn
yn canyln a'n cynnorthwya.

Yn Gyntaf, F' an cyfarwyddir i
Edifarhâu am ein holl Bechodau a *Edifeirwch.*
ſaſſiodd, Dyma 'r paratôad y mae
Criſt ei hun yn ei ofyn gennym, *Mat.* iii. 2, 3.
Dyledſwydd, chwi a wyddoch, yr hon y mae 'n
buchedd bechadurus yn gwneuthur yn waſtad
yn anghenrhaid i'n Hyſtyriaeth, os byth y diſ-
gwyliwn

gwyliwn ddedwyddwch tragywyddol yn y byd a ddaw, *Luc.* xiii. 2, 3. Ond yn bennaf, y mae Ardderchowgrwydd y Sacrament hwn yn gofyn y dylid edrych arno yn fwy gofalus, ac yn ochelgar, oblegid heb ddiffuant Edifeirwch nid allwn ni ddiſgwyl bûdd neu leſhâd oddi wrth Angau a dioddefaint Criſt, yr hyn yr ŷm yn ei goffâu yn y Sacrament hwn, a chennym ei haeddedigaethau ef gwedi eu trawſglwyddio i ni trwy'r Sanctaidd goffadwriaeth yma. Gan hynny y wyfi yn tybied fod hyn yn gwaſanaethu i'ch gwneud chwi 'n hyſpys o anghenrheidrwydd mawr bwys y Ddyledſwydd hon, mae trwydd hi'n unig y cawn ein gwahodd i'r Wlêdd Nefol hon neu ni chawn, i ba un i'ch gelwir. Yr wyf yn myned ym mlaen yn ail i yſpyſu i chwi mae os bydd eich Edifeirwch, neu 'ch dychweliad at Dduw yn bur ac yn ddifrifol, hi a ddug ynom y ffrwythau daionus hyn yn canlyn.

Yn Gyntaf *Natur gwir Edifeirwch.*

Teimliad, triſtwch, a Chyffes o'r holl Bechodau aeth heibio. *Yn ail* Sicr amcanu neu ymroi i ddilyn buchedd newydd, y rhai hyn yw Ffrwythau naturiol Edifeirwch, a ſy'raid bob amſer ganlyn ein dychweliad at Dduw os byth y gobeithiwn ei gael yn Effeithiol i'n Hiechydwriaeth. Ac

Yn Gyntaf, Rhaid i ni lafurio ar i ni ddyfod a'n hunain mewn *Teimlad ac Yſtyriaeth* o'n holl bechodau a'n drygioni a baſſiodd; hyn yn eglur a ddengys ei hun i ni trwy gyffelybu 'n buchedd ddau

dau a'n gweithredoedd wrth Reol neu gyfar-
yddiad gair Duw yr hwn ſydd
raid i ni wneud yn feſur o'n Ym- ¶ *Y Deg*
holiad, mae St. *Paul*, yn dangos i *Gorchymmyn.*
ni. *Rhuf.* iii, 20. Mai trwy y
Ddeddf, y mae adnabod Pechod, ac fy an har-
gyoeddir trwy 'n Profiad ein hunain, nad os un
fforddd debyccaf i ddatcuddio 'n hanwireddau,
ac i ymddaroſtwng ein hunain am danynt, a
chymmhwyſo gair Duw o ddifrif at ein ffyrdd
ceimion; ac nid ellir fyth oſod a'r y Dydyledſ-
wydd hon o Hunan Ymholiad ar amſer mwy
cyfaddas, na phan fyddom yn amcanu derbyn y
Cymmun Sanctaidd; oblegid oddigerth i ni gan-
fod rhifedi, a deall echryſlonrhwydd ein Cam-
weddau, ac ofni dialedd dyledyus i ni am danynt,
yr ŷm yn gwbl anghymmwys i goffâu ei Angeu
ef yr hwn a fy farw tros ein Pechodau, ac a gy-
fododd drachefn dros ein Cyfiawnhad. Teimlad
neu yſtyriaeth o'n Pechod, ſydd raid dangos i ni,
fod yn rhaid i ni wrth Brynwr Gogoneddus, a
pha Rwymedigaethau ſydd arnom i fendithio a
Molianu Duw am ein Hiechydwriaeth trwy ei Fâb
IESU GRIST. Y mae 'r Dyledſwydd hon o
Hunan Ymholiad, o gymmaint deunydd a lleſhâd
bob amſer, a darfod i Pythagoras yn y gwerſi
euraidd hynny ſy'n mynd yn ei Enw ef, yn en-
wedig y orchymmyn yr unrhyw i'w Yſcolheigion;
Nôb Nôs cyn y Cyſgent, efe a Orchymynai iddynt
Holi eu hunain, pa ddaioni a wnaethont ac ym
mha beth y troſeddaſant, ewch tros y pethau hyn

(medd

(medd efe) ac os gwnaethoch ryw ddrwg ym-
ofidiwch, os da llawenhewch. Y Drefn yma
os canlynir beunydd, fel y mynegir gan *Hierocles*,
ei ragorol Scrifennydd ei Gôf Lyfrau ef ſy'n ei
harferu. *Plutarch*, *Epictetus*, *Seneca*, ar Ymmeraw-
dwr *Marcus Antoninus*, ſy'n cyttuno gan Orchym-
myn yr un arfer trwy eu ſiampl eu hunain, Ond
yn Enwedig *Dafydd* dduwiol, *Meadyliais am fy*
ffyrdd, a throes fy Nhraed at dy Dyſtiolaethau di,
Pſal. cxix. 59. Ar ffordd hon, diammeu ſydd
fodd rhagorol i ni gynnyddu mewn Rhinwedd,
ar ffordd effeithiolaf i gadw'n Cydwybodau 'n
effro, ac i wneuthur i ni arſwydo 'n hunain, ac
ofni troſeddu, pan wyddom ymmlaen-llaw fod
yn rhaid i ni alw 'n hunain i gyfrif manwl am
bob gweithred. A phan fyddom yn rhoddi ein
meddyliau ar y Ddyledſwydd hon o Hunan Ym-
holiad, o flaen y Cymmun, neu ar ryw amſer
arall, rhaid i ni ei chyflawni hi mor ddiarbed ac
yw boſibl i ni wneuthur, gan farnu cyn doſted
o'n Gweithredoedd ein hunain, ac y gwnaem o'n
Gelyn mwyaf a gwaethaf; neu 'n amgen n
wnawn ni ond Rhagrithio a ſiommi'n hunain yn
y fath trymmaf, ac mwya pwyſfawr, ſef o wybod
helynt a chyflwr ein heneidiau: Os ydyw 'n ym-
holiad, yn gyſiawn ac yn bûr, yno 'r ymddengys
yn eglur ymmha beth, a pha ſawl gwaith y
aethom ar gyfeiliorn ac y gwnaethom a'r fai
Nyni trwy gyflawni y Ddyledſwydd hon yn ffydd-
lon a ddown i'r Goleuni a'n holl anuwiol, anghy-
fiawn, ac anrhugarog Weithredoedd; ein holl

ofe

ofer a'n ffiaidd ymadroddion; ein holl Feddyliau anllad balch a Chybyddaidd. Y Fath ymholiad manwl a diarbed a ddatcuddia i ni un yſcymmun beth hwnnw i'w Pechod, *Deut.* vii. 26. Yr hwn a halogodd ein Natur, a wnaeth Duw yn Elyn i ni, ac a'n ceuiff allan o Deyrnas Nef, os nid Edifarheir am dano, 1 *Cor.* vi. 9, 10. Trwy ddyfal chwilio fel hyn, ni a gawn ddeall yn ebrwydd rifedi'n troſeddiadau, pa drueiniaid gwael a mawr bechaduriaid ydym; pa ſawl gwaith y torraſom ein difrifaf Addunedau a'n llawnfwriadau, yn Enwedig ar ôl derbyn y Cymmun Sanctaidd, ac mewn amſeroedd clefyd, a chyfyngder: Y fath Ragweliad o drueni a hyn, a ddylai gyffroi ynom drymder Calon, a thriſtwch am Bechod, yn enwedig pan yſtyriom y diwedd, ar pethau a ganlynant oi herwydd yn y byd a ddaw. *Ar yr Annuwiolion* (medd *Daſydd* Dduwiol) *y glawia Duw faglau, tân a Brwmſtan, a phoethwynt yſtormus*; *dymma ran eu phiol hwynt*, Pſalm. xi. 7. *Mawr blâau a fydd i'r anuwiol, llid, digoſaint, trallod, ac ing ar bob Enaid dyn ſydd yn gwneuthur drwg*, Rhuf. ii. 8, 9. *Y rhai drygionus a ymchwelant i Uffern, ar holl Genhedloedd anghofiant Dduw.* Y rhain a llawer eraill o'r yffelyb brofiadau o'r Scrythyr, a ddichon roi i rith neu wybodaeth o gyflwr greſynol yr Anuwiol a'i helynt yn y Byd a ddaw, ac o gaſineb Duw yn erbyn pechod: Ac onid yw hyn, gan hynny yn gwaſanaethu heblaw amlhau Rheſymau i'n rhoi mewn mawr ofid, a thriſtwch, pan

yſtyriom

yſtyriom yr hyd y bôm ni byw mewn cwrs An
nuwiol, ein bod ni mewn perigl o'r plaâu hyn
ny, ar poenau y mae Duw gwedi eu Trŷſſori i'
Annuwiol, ac a ddigwyddant yn ddiammau i'v
rhan, onis rhagflaenir trwy brydlon Edifeirwch.

Yr ail rhan o Edifeirwch yw *Cyſtudd*, neu dri
Wylofain am ein troſeddiad ar *Feddwl*, *Gair*,
Gweithred. Pan gofiom ein Pechodau ac Ynfy
drwydd ein bucheddau a baſiodd, a'r Peryglo
yr ŷm ni debyg i ſyrthio iddynt, diau nad allw
ni amgen na thriſthau mewn Meddyliau a Deall
twriaeth o'n trueni preſennol, ac ſydd ar ddyfod
Gofidiau *Dafydd*, ac Edifeirwch *Pedr*. ii. *Sam*
xii, *Luc*. xxii. a ddangoſaſant eu hunain mew
ffrydiau o ddagrau, ac yr oeddynt yn rhy ormo
i'w hattal: Ond y mae ein Calonnau ni'n gyffre
dinol mor galed a chreulon, a'n bod ni'n pech
yn erbyn Duw, ac yn colli'n Heneidiau ein hun
ain, heb gymmaint ac Uchenaid neu ddeigrin
Mi a wn fod tymmer Pobl yn amryw; geill r
dywallt Dagrau ar bob achos bychan, eraill ni
allant wylo er bod eu Calonnau ymron torri
driſtwch; gan hynny nid oes ini farnu a
ein perffeithrwydd ein hunain, ac Edifeirwc
pobl eraill wrth y fath Arwyddion ac Argoelion
ac nid yw dagrau bob amſer yn angenrheidiol
Edifeirwch, er eu bod yn bur weddus, ar hy
lleiaf a allwn ni wneud pan fyddom wedi gwneu
thur ar fai, ydyw, bod yn ddrwg gennym a
dano, a beio ar ein hynfydrwydd, a bod y
llwyr ddigllon wrthym ein hunain. *Mynegaf*

anwired

nwiredd (medd *Dafydd* dduwiol) *a phryderaf o berwydd fy mhechod*, Pſal. xxxviii. 18. Yn enwedigos buom anwireddus iawn, a darfod i ni amlhâu ein troſedduadau a pharhau 'n hir mewn helynt anuwiol, eſceuluſo Duw ai anghofio ddyddiau heb nifedi; Yna ein cyſtudd a ddylau fod ryw feſur yn gyfattebol i faintioli ein pechodau, os buont fel *Yſcarlad a Phorphor*. Eſay i. 18. Hynny yw, o ddyfnach lliw na chyffredin; yna ein triſtwch fy raid fod mor ddwfn a'n heuogrwydd, Os nid ymmaint ni a ddylaem ddangos yr un faint o driſtwch a chyſtudd yſpryd fel yr ymddanghoſo ynom gyffes edifeiriol am ein holl bechodau a baſſiodd,

Yr hyn yw'r Trydydd peth ſy'n briodol i wir edifeirwch. *Addefais fy mhechod wrthyt* (medd y prophwyd *Dafydd*) *a'm hanwiredd ni chuddiais*; *dywedais, Cyffeſaf yn fy erbyn fy hun, fy nwireddau i'r Arglwydd*; *a thi a faddeuaiſt anwiredd fy mhechod*. Pſal. xxxii. 5. Y gyffes yma o'n pechodau ni ddylae fod mewn Geiriau Cyffredin, ein bod ni oll yn bechaduriad gyda'g eraill o Ddynol ryw, ond rhaid ei bod hi yn fynegiad yſpyſol i Dduw o'n holl bechodau creuonaf, ar Feddwl, Gair a Gweithred, gyd ai holl amryw annogaethau, gan ddangos yn amlwg ein briwiau i'n meddig Nefol; A hyn ſydd raid i ni wneuthur i ddangos ein bod ni yn caſhâu ein holl fuchedd ddrygionus a phechâdurus a baſſiodd, gyda llawn fwriad a meddwl ddiſigl

Cyffes o'n Pechodau.

(trwy

(trwy nerth Duw) na roddom fyth mo'n brŷd wneuthur y cyffelyb trachefn, oni wneir hyn, ei triſtwch am bechod, a chyfaddef ein drygion ni wneiff fyth i ni leſhâd yngolwg Duw, os n chyſylltir gyd a llawn fwriad diſigl o ddily buchedd newydd.

Buchedd Newydd.

Yr hwn yw y pedwerydd a Rhan mwya defnyddiol o wir E difeirwch, ar unig fodd i gael tru garedd gan Dduw. Y neb a gu ddia ei bechodau ni lwydda, ond y neb ai hadd efo ac ai gadawo a gaiff drugaredd, *Dihar.* xxviii 13. *Gadawed y drygionus ei ffordd, ar gwr anwir feddyliau; a ddychweled at yr Arglwydd, ac efe gymmer drugaredd arno; ac at ein Duw ni o herwyd efe a arbed yn helaeth,* Eſay lv. 7. *Nag oeddy* (medd Chriſt) *Eithr onid Edifarhewch, chwi ddifethir yn yr un modd,* Luc xiii. 3. *Edifarhewc gan hynny, a dychwelwch, fel y deleer eich Pechodau* Act iii. 19. Y Rhannau hynny o Edifeirwc a grybwyllwyd o'r blaen ydynt yn unig i'n pa rattoi at hwn. Yr hyn ſydd raid berffeithio, gorphen gwaith un gwedi newydd ddychwelyd ydyw dyfod yn greadur newydd, troi oddi wrt ein ffyrdd drygionus, ac i dorri ymaith ein Pe chodau trwy Gyfiawnder. Yn wir rhaid bô yr Ewyllys ar bwriad hwn gan yr holl Gym munwyr; os hwy a Obeithiant neu a ddiſgwy liant ryw leſhâd neu fûdd oddiwrth y Ddefo ar Cyfammod Cyſſegr barchus hwn; Canys neb a ddelo ai fryd i barhau yn ei bechoda

baſſiodd, ſy'n dyfod yn o debyg i *Judas*, yr wn a ddaeth ac a dderbyniodd Swpper yr Arglwydd, ac ar yr un amſer a ymrôdd tel yr amcanodd i fradychu ei Feiſtr. Yr hyn ſy'n gweuthur dyn yn gwbl a nghymmwys i dderbyn y ſanctaidd Sacrament, ydyw byw mewn gwaſtadol, a chynnefin arfer o ryw bechod adnabyddus, heb yr ewyllys neu 'r meddwl lleiaf am edifeirwch wellhâd buchedd.

Dyfodiad y fath ddyn at y Bwrdd Sanctaidd, yn ddiammau ydyw, bwyta ac yfed ei ddamnedigaeth ei hun; gan mai gwatwor Duw yn amlwg ydyw, a mawr ddirmyg ac ammarch i'w Dduwiol Fawrhydi. Rhaid i ni gan hynny (trwy nerth a chynnorthwy grâs Duw lawnfwriadu dilyn buchedd newydd, gan ganlyn Gorchymmynion Duw, neu yn amgen ein holl ymholiad o'r blaen a ymddengus ond yn yſcafn ac mewn rhith oddiallan, ein yſtyriaeth a theimlad o bechod yn beth cyffredin a diyſtyr, ein triſtwch neu gyſtudd yſpryd yn gymmelledig a Rhagriniol, a'n Cyffes yn gás ac o ran arfer. Am hynny holwch yn dda burdeb eich Edifeirwch ach llawn fwriadau, fel na thwylloch mo Dduw, na chwi eich hunain: Ef nid ellwch, oblegid efe yw Chwiliwr y Galon, a barnwr y Meddyliau, ac ni bydd efe fodlon i ddim nad yw o'r galon, ac yn ddiffuant.

Ufudd-dod cwbl berffaith ni ddiſcwyl-ir ar ôl y CymmunSanctaidd.

Nid o ran bod i ni dybied fod y Sacrament hwn o Swpper yr Arglwydd yn gofyn perffaith ufuddddod bob tro yr elom at yr Allor Sanctaidd, neu nid oes i neb ddyfod ond y rhai ſydd mewn Cyflwr perffeith lawn diammau, fe fyddai hyn yn ammhoſſibl o herwydd nid oes Dyn yn fyw ni phecha; canys pwy a ddichon ddywedyd mi a lânheais fynghalon, glan wyf oddiwrth fy mhechod; a bod y Cyfiawn yn ſyrthio ſaith waith yn y dydd. Nid yw Sacrament Swpper yr Arglwydd ordinhâd yn troi, ond yn cadarnhau, gwedi ei fwriadu i gadw, ac i chwanegu 'r yſprydol *Fywyd* hwnnw, a'r *Grâs* a dderbyniaſom yn ein Bedydd. Felly pan ddelom i'rCymmun Sanctaidd, yr ŷm yn dyfod yno i gael ein cyflawni o newydd a grâs a daioni i gryfhau, a diddanu ein Heneidiau ym mhob duwioldeb a rhinwedd: Megis y mae'n Cyrph naturiol yn cael eu porthi a'u diddanu a'r Elementau hynny o Fara a Gwin, yr un peth a weithredir yn yr Enaid, yn y dyn oddimewn trwy'r Sanctaidd ddirgeledigaethau hyn, megis yn y dyn oddiallan trwy 'r Bara a'r Gwin, gan fod y Bara yn ffon y bywyd, a'r gwin yn beth mwya cwmfforddus (pan gymmerir yn gymmhedrol) i ſirioli ac i lawenhau y Galon: Ac fel hyn ein Heneidiau trwy 'r Sacrament hwn a gadarnheir ac a gryfheir, a gras Doethineb, Cyſſur, a phob doniau Yſprydol eraill, i'n cadw

trwy

trwy ffydd i iechydwriaeth. Mawr yw ei ddiddanwch, a'i leſhâd ef; Ei ddiddanwch ef, o herwydd nid yw 'n arwyddoccâu i ni yn unig, y rhagorol gariad ein Iachawdwr yn rhoddi ei gorph i'w dorri, a'i Waed i'w dywallt troſom, ond hefyd y mae'n ſelio i ni yr holl Fendithion, a'r lleſhâd a bwrcaſwyd ac a enillwyd i ni trwy ei Augau a'i ddioddefaint, ſef Pardwn am Bechod, a nerth i'w erbyn ef: Y lleſhâd o gymmuno'n fynych ſydd hefyd o gymmaint budd, o herwydd wrth hynny i'n cadarnheir, ym mhob grâs a daioni a'n llawn twriadau i fyw mewn ufudd-dod a chydffurfiad i gyfreithiau Duw a gryfheir a gras glan yſpryd Duw i wneuthur ei ewyllys ef, wrth hyn a roddir i ni: Meddyginiaeth rhagorol ydyw yn erbyn pob profedigaeth, trwy farwolaethu ein gwŷniau, ac yſprydoli ein ſerchiadau: Ar air, y ffordd debyccaf ydyw i wneud ein Cyrph yn Demlau yr Yſpryd Glân, i baratoi ein Heneidiau i gael mwynhau Duw hyd pob tragywyddoldeb.

Ail lithro ar ol derbyn nid peryglus,

Ac os ar ryw amſer, trwy anwybodaeth, Synnedigaeth neu ryw brofedigaeth arall, y ſyrthiwn i'r pechodau hynny 'r Edifarhâſom am danynt, ac a addunaſom i'w herbyn, wrth dderbyn y Sacrament diwaethaf, etto ni dylei'r gamgwyddiadau hyn wneud i ni arſwydo dyfod drachefn, gan fod Edifeirwch yn waſtad gwedi ei ganiattâu i ni er ein daioni, os ar ol i ni ſyrthio yr edifarhawn, ac yr adnewyddwn ein llawn

ſwriadau gyda thriſtwch Calon a chyſtudd yſpryd, ſe 'n gwneir yn iach fel or blaen. *Os yr Annuwiol* (medd Duw) *a ddychwel oddiwrth ei holl bechodau, y rhai a wnaeth, ni chofir iddo yr holl gamweddau a wnaeth*, Ez. xviii. 21, 22. Na phecha mwyach medd ein iachawdwr wrth y Wraig a ddalieſid mewn Godineb, *ac nid wyf finneu yn dy gondemnio di*, Joan viii. 11. Nid gwneuthur hwn neu 'r Pechod mawr hwnnw a'n cau ni allan yn llwyr oddiwrth drugaredd Duw a meddeuant. Canys yno, yn wir nid allei neb ddiangc rhag damnedigaeth, Canys *nid oes dyn cyfiawn ar y ddaear a wna ddaioni, ac ni phecha*, Preg. vii. 20. Ond nyni yn byw ac yn meirw heb Edifeirwch, a gwellhâd buchedd ſy'n tynnu digofaint a dialedd Duw arnom. Y mae ei drugareddau ef yn anherfynnedig, ni phardyna efe mo honom yn unig unwaith neu ddwywaith, ond ar bob amſer ar ein hedifeirwch a'n dychweliad atto. Nid yw efe yn troi heibio un amſer, un oes, neu Dymor; Ond pan ddychwelo yr Annuwiol oddi wrth ei ddrygioni, yr hwn a wnaeth, a gwneuthur Barn a Chyfiawnder, hwnnw a geidw yn fyw ei Enaid, Ac nid oes un Pechod er ei fod fyth mor aflan, a ſceler yn ei Natur, ond a bardynir, ac a faddeuir, oddigerth y pechod hwnnw yn erbyn yr Yſpryd Glân. *Pob pechod a Chabledd a faddeuir i Ddynion onid cabledd yn erbyn yr Yſpryd Glân ni faddeuir*, Mat. xii. 31, 32. Ac am hynny, y pechod yma o Fwytta ac Yfed yn annheilwng yn y ddealltwriaeth

wriaeth waethaf nid eill fod yn bechod damnedig, O herwydd i Dduw yn yr Efengyl (mwyn Chriſt) addo maddau ein holl bechodau ar ein hedifeirwch, ac am hynny y pechod yma o Fwytta ac Yfed yn annheilwng ym myſc y lleill:

Mae'n gôf genif, fod rhai pobl yn cymmeryd yn drwm iawn attynt, ac yn drallodus ar eu Defoſiwnau, wrth glywed darllain ychydig ymadroddion a gynhwyſir yn y Cyngor diwaethaf i'r Cymmun, ſef o fod yn euog o Gorph a Gwaed Chriſt ein Iachawdwr; o Fwytta ac Yfed ein Barnedigaeth ein hunain heb yſtyried Corph yr Arglwydd------Yn ennyn digofaint Duw i'n herbyn; Yn ei annog i'n plaau ac ymrafael Glefydau, ac amryw Angau. Dymma 'Ymadroddion caledion, a rhai o honynt yn rhy 'anhawdd i'w deall: Ond pa bynnag fe ellir 'eu gochelyd hwynt oll, a bod yn ddiangol 'oddiwrthynt, trwy ddyfod yn deilwng, hynny 'yw, trwy Ffydd ac Edifeirwch: Gan hynny na 'adewch i'r ymadroddion dychrynllyd hyn mo'ch 'trallodi, na'ch cadw chwi oddiwth y Cymmun 'Sanctaidd: Edifarhewch, a chredwch, ac yr 'ydych yn ddiogel ac allan o berygl o ſyrthio 'i'r un o'r peryglon hynny y mae 'r ymadro-'ddion hyn yn eich dychrynu a hwynt.' Felly eiſiau ymbarattoi, fel y darfu rhai dynion ddal ar hynny, ac yn y dealltwriaeth y maent yn ei gymmeryd ef yn gyffredin, ni ddichon fyth fod yn eſcus neu rith am nad ydynt yn dyfod i'r Cymmun Sanctaidd, Canys ar ol i ni ymegnio ein

goreu ac hyd eithaf ein gallu i'n barattoi ein hunain, yr ŷm yn cyfaddef (o flaen, Duw a'r gynnulleidfa) 'Nad ydym ni yn dyfod at y Bwrdd Nefol hwn gan ymddiried yn ein Cyfiawnder ein hunain, eithr yn ei aml a'i ddirfawr drugareddau ef; Trwy 'r rhain i'n gwahoddir i ddyfod; at drugaredd Duw (trwy Grift) mae 'n rhaid i ni oll gyrchu, a chymeryd Noddfa ynddi; yr hwn addawodd; y fawl fy'n *dyfod atto ef ni fwria efe allan ddim*, Joan vi. 37. *Calon ddrylliog gyftuddiedig O Dduw ni ddirmygi.* Pfal. li. 17. Nid oes dim yn ofnadwy yn y Sacrament hwn, ond i'r gwrthnyfig anedifeiriol, a'r neb fy'n parhau yn waftad yn bechadur, cyflwr pa un fydd doft a phob dalen yn y Scrythur fydd ofnadwy yn erbyn y cyfryw, pa un a wnelont a'i dyfod a pheidio; Ond i'r Enaid edifarus ar goftyngedig nid oes dim yn drift neu yn arfwydus yn y Wledd Sanctaidd hon, Canys ni chondemnir neb am dderbyn yn annheilwng ond y fawl fy'n ei haeddu ef am barhau yn eu hanwireddau; a'r anedifeirwch yma fy'n gwneuthur eu Gweddiau yn ffiaidd o flaen yr Arglwydd. Er nad ŷnt un amfer yn Gyfrannogion o Gorph a Gwaed Chrift, y maent mewn cymmaint perygl ar rheini fy'n bwytta ac yn yfed yn annheilwng; ie Mi allwn ddywedyd mewn mwy. Oblegid y naill fy'n arferu y moddion mewn ufudd-dod i Orchymmyn ein Iachawdwr, a'r llall o wir fodd yn efceuluſo yr hyn a ragflaenai ei

Ddam-

Ddamnedigaeth, os yſtyrir yn iawn, ac mewn pryd y gogwyddwn, ein Calonnau atto: Y ffordd diogelaf, meddaf i ragflaenu ein Barnedigaeth, yw derbyn y Sacrament yn fynychach nag y mae Dynion yn arferol o wneud, fel trwy waſtadol Gyfrannogiad o'r Ymborth Yſprydol hwn o'r Bara bywiol yr hwn a ddaeth i wared o'r Nêf. Y porthir eu Heneidiau ym mhob daioni, ac y rhoddir iddynt o newydd Râs Duw, a'r Yſpryd Glân yn waſtad i buro eu Calonnau, a'u nerthu i redeg yn ffyrdd Gorchymmynion Duw gyda mwy dianwadalwch, ac hyfrydwch nac yr oeddynt o'r blaen, Felly y peth a ganlyn yn ddieu o Fwyta ac Yfed yn annheilwng, a ddylai yn hytrach ein hannog i fod yn ofalus ac yn ddiwyd yn y Ddyledſwydd hon, na ſiommi ein hunain a gau Reſymmau, i'r fath eſceuluſtra ac ychwanegu 'n damnedigaeth; yn ddiameu gwir yw na theifl Duw un dyn fyth i'r fflammau tragywyddol ſy'n ceiſio gwneuthur ei ddyledſwydd yn oreu ac y medro. *Os bydd parodrwydd meddwl o'r blaen* (medd yr Apoſtol) *yn ol yr hyn ſydd gan un, y mae yn gymmeradwy, nid yn ol yr hyn nid oes ganddo*, 2 Cor. viii. 12.

Ac nid oes i ni feddwl mor anaddas am Fâb Duw, yr hwn a ddaeth i'r byd i gadw pechaduriaid, yr ordeiniai efe 'r Ordinhâd hon i fod yn fagl i'n Heneidiau. Ni ordeinwyd ef i'r Angylion, nac i Seinctiau gogoneddus ond i bechaduriaid goſtyngedig ac Edifeiriol, i'w dwyn adref at Dduw, arwydd o'i pardwn ydyw, a mynegiad cyſſurus

o barodrwydd ein Tâd Nefol i faddeu y Pechaduriaid pennaf er mwyn Ieſu, yr hwn yn raſlon ſy'n galw ar *bawb ſydd ſlinderog ac yn llwythog ddyfod atto*; *ac efe a eſmwytheiff arnynt*, Mat. xi. 28. *Ni ddaeth Chriſt i alw y rhai cyfiawn, ond Pechaduriaid i Edifeirwch*, Mat. xix. 13. Ac am hynny y cyfryw ac ſy'n eu cyfrif eu hunain yn fwya annheilwng, ydyw y rheini yn wir y mae Chriſt yn eu galw yma, ac yn eu gwahodd i'r Sacrament hwn, pan fyddont yn ddwys deimladwy o'i hannheilyngdod. Pe ni byddem wedi 'n beichiogi a'n geni mewn Pechod, ni byddai raid i ni wrth y fath foddion, ac offerau o râs megis ac mae 'r *Sacramentau*, ' ond gan ein bod ' wrth naturiaeth wedi ein geni mewn pechod ' ac yn blant digofaint, trwy 'r *Sacrament* hwn ' i'n gwneir yn blant Grâs, ac Etifeddion ' Nefoedd,' Nid rhaid i'r iach (medd Chriſt wrth Feddyg, ond i'r rhai cleifion. Hyn yw helynt holl Ddynol ryw fel y mae 'n perthyn i'w bywyd yſprydol, nid oes un ffordd arall i'r Rhyddhâu ni oddi wrth angeu pechod, ond yr ebrwydd i ni ymoſtwng ein hunain i'r Nefol Feddyg hwn, a ddaeth i'r Bŷd i gael ac i gadw y ſawl ſydd ar gyfrgoll, ac ar ddarfod am danynt a gwir yſtyriaeth o'n hannheilyngdod o'r hol Reſymmau eraill a'n cymmhwyſa ni oreu i or chymmyn ein hunain i ffafor a thrugaredd Duw gan y gwyddom ei fod yn gwrthwynebu y balch (a'r Pechadur rhyfygus) ond byth ni nac

ceiſ

ha-ceiff ei Râs a'i ffafor i'r Goſtyngedig a'r Add-
lonfwyn. Am hynny cynnifer gwaith y delom i'r
og Cymmun Sanctaidd ar fath Galon hawddgar a
xi da, megis ac i arferu ein Hedifeirwch tu ag at
on Dduw, ein Ffydd a'n Gobaith yn ei Drugaredd
am ef trwy Griſt, a'n cariad perffaith i holl Ddynol
yn ryw. Y fath gywir a llwyr fryd Calon a hyn,
na yn ddiammau a'n gwna ni yn Gyfrannogion teil-
i'wng o'r Dirgeledigaethau Sancteiddiol hyn, ac
im a'n rhagflaena fel na fwyttaom, ac nad yfom
ved Farnedigaeth i ni ein hunain, mi a chwanegaf
lda ym mhellach y geill un gwedi ei drefnu, neu
râs eu gymmhwyſo fel hyn, ddyfod (os byddeu raid)
ooc ar awr o rybudd, mor ſiccr ac y geill ete ddy-
od fod i'r Eglwys i ddywedyd ei Weddiau neu
awr wrando Pregeth. Dyledus baratoâd nid yw yn
n yſeyll cymmaint ar i ni oſod heibio cynnifer o
iſt Ddyddiau mwy nac arferol i gymmhellu ein
yw hunain i Grefyddol ymddygiad y Meddwl, megis
hyn ar eglur a Naturiol Drefn a Duwiolfryd ein He-
i'n eidiau, fel y maent yn waſtad yn tueddu at
yn Rinwedd a daioni, trwy helynt cyffredinol ein
efo bucheddau; wrth hyn rwy 'n deall nid llawer o
dw drafferth, neu fod Dŷn gwedi ei lwyr roddi i
nt Negeſeuau cyffredin y bŷd hwn, a eill fod yn
nol eicus cyfiawn neu rith yn y Bŷd am nad yw 'n
or dyfod i'r Cymmun Sanctaidd, O
aw erwydd y mae pob gorchwyl yn *Gwyr o fawr*
y yſeyll ar ddyledſwyddau Creſydd, *achoſion pa un*
ac ond i ni drin ein Gorchwylion yn *bynnag ai cyf-*

eiſ ôl

fredin a'i neilltuol nid ynt eſcuſodol rhag cymmuno yn fynych.

ôl Rheolau Chriſtianogol; canys er nad yw'r cyfryw ddynion yn cael ennyd tu ag at barattoâd preſennol, etto geill fod ganddynt y parattôad arferol honno, ar ba un y dylid goſod cwbl yn hyn o beth: Dŷn yn cyflawni ei Ddyledſwydd yn Gydwybodus trwy ganlyn ei Orchwyl, a ddichon fod yn un o'r cynneddfau gorau i'w orchymmyn ef i Dduw, gan fod pob dŷn yn gwaſanaethu Duw pan fo'n canlyn ei alwedigaeth yn ddiwyd, ac yn gwneuthur uniondeb, ac oneſtrwydd ymmhob peth a gymmero mewn llaw, ac am hynny, pa mwyaf y perygl a'r brofedigaeth y mae'n ddaroſtyngedig iddo, trwy fod trafferthion yn amlhau, rheitia oll iddo Râs a chynnorthwy Duw yr hyn a gyfrennir i ni yn helaeth yn yr Ordinhâd Sanctaidd hon: Felly y rhai ſydd ganddynt lawer i wneuthur, ac yn meddwl o ddifrif am y byd a ddaw, a ddylent yn bennaf ddal gafel ar bob odfa a ddichon Sicrhau iddynt iechydwriaeth eu heneidiau; canys megis y dylai y ſawl ſy'n cael ennyd Gymmuno 'n waſtad, oblegid nid oes fodd iddynt wneuthur gwell defnydd o'i hamſer, felly y dylai y ſawl ſy'n trîn llawer o fuſneſion ddyfod yn fynychach i'r Cymmun Sanctaidd, a dyſcu pa fodd i ſancteiddio eu gorchwylion. Ond i fynd ymlaen y gaingc arall o Ddyledſwydd y Cymmunwr yw, ei holi ei hunan a oes ganddo Ffydd Fywiol yn nhru-

Ffydd fywiol

garedd

garedd Duw trwy Griſt. Profwch chwychwi eich hunain a ydych yn y ffydd, 2 *Cor.* xiii. 5. Sacrament Swpper yr Arglwydd a ordeiniwyd yn unig i'r ffyddloniaid y rhai ſy'n cyfaddef eu Bedydd, ac yn proffeſu Ffydd Griſt a Croeſhoeliwyd, ac yn deall y Gwyddorion Crefydd Griſtinogol, a gynhwyſir ynghredo yr Apoſtolion; ac hefyd diben a bwriad y Sanctaidd Ordinhâd hon. Y lleſhâd o Farwolaeth, a dioddefaint ein Iachawdwr yn y Sacrament hwn a gynnygir yn wir yn rhaid i bawb ond ſydd yn unig yn effeithiol i'r ffyddloniaid. *Ond Cynnifer ac ai derbyniaſant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn Feibion i Dduw, ſef i'r ſawl a gredant yn ei Enw ef*, Ioan i. 12. A hyn yw'r bywyd tragwyddol iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaiſt ti Ieſu Griſt, *Ioan* xvii. 3. Y cwbl oll y wnaeth, ac a Ddioddefod Chriſt troſom ni ddynion ac er ein Iechydwriaeth, ni wna fyth leſhâd i ni oni bydd gennym ffydd i gredu ynddo. Yr hyn ſydd raid gwneuthur y lleſhâd a bendithion yr Efengyl yn effeithiol i'n Iechydwriaeth, ydyw ein Ffydd yn Griſt. *Yn wir yn wir meddaf i chwi*, (medd ein Iachawdwr) *y neb ſydd yn gwrando fyngair i, ac yn credu i'r hwn am hanfonodd i, a gaiff fywyd tragywyddol: Ac ni ddaw i farn; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i Fywyd*, Ioan xiii. 24. Yr hen Eglwyſydd a gyfrifent y rheini yn unig yn ffyddlon a dderbynient Swpper yr Arglwydd, a'r Germainiaid ni fodlonent i'r un o'r rheini a fyddent *yn nbrugaredd Duw.*

ddent gwedi colli eu Tarianau ddyfod i'w hebyrth; ac nid yw ein Heglwys ni yn bodloni i neb o honom ddyfod i'r Chriſt'nogawl Aberth hwn heb Darian y Ffŷdd. Deuwch nes nes trwy Ffydd *(medd yr Offeiriaid)* a chymmerwch y Sacrament Sancteiddiol hwn i'ch Cyſſur, ac y mae gan y Ffydd hon yn lle Gwrthddrych Drugaredd Duw trwy Griſt megis Ffynnon a *Sylfain yr holl Fendithion anfeidrol hynny a'r Cyſſur yn ŷm yn ei ynnill trwy ei ymddanghoſiad yn y Cnawd; ac os nyni a ofynnwn yr achos, a'r Rheſwm o gymmaint trugaredd a daioni i Ddynol-ryw, un arall nid ellir ei roddi ond ei fod ef yn gyfoethog o Drugaredd.* Eph. ii. 4. Ac os ymofynnwn ym mhellach pa fodd y daeth y drugaredd hon yn eiddom ni, mae 'r atteb yn eglur, trwy Griſt y daeth, trwy ba un y mae holl Fendithion y bywyd hwn a'r rheini yn y byd a ddaw gwedi eu pwrcaſu i ni, a rhaid eu mwynhâu trwy Haeddedigaethau ac Erfyniad y Sanctaidd Ieſu, trwyddo ef i'n Prynwyd, ac yn ol Cyfoeth ei Râs y cawſom faddeuant o'n Pecho dau, a thrwyddo ef yn y diwedd y cawn ein gogoneddu.

Diolchus gôf am ein Angau.

Ac at ein Ffydd hon rhaid i ni gyſſylltu Diolchus gof am ei Angau, a'r lleſhâd hynny 'r ydym yn ei dderbyn oddi wrtho. *Ein graſlon a thrugarog Arglwydd* (medd *Ddafydd* Dduwiol) *a wnaeth gofio ei Ryfeddodau*, Pſal. cxi. 4. Ond yn enwedig y gwaith hwn o'n Pyrnedigaeth trwy *Ieſus Griſt*, Yr hyn o'i anghofio a fyddei

fyddei anniolchgarwch mwy anweddus a gwaeth na'r Cenhedloedd neu 'r Publicanod y gwaethaf o Ddynol-ryw, ymŷſg yr Iddewon, oeddynt yn hynod o fod yn euog o hynny tu ag at eu Pendefigion, *Mat.* v. 36. Yn hyn mae Cariad nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fâb i fod yn iawn dros ein Pechodau, 1 *Ioan.* iv. 10. Hon ſydd drugaredd lawer iawn uwchlaw 'r holl Drugareddau eraill: ie hon ſydd yn pereiddio 'r holl drugareddau eraill i ni. Pe ni buaſai'r Prynedigaeth, ein Creadigaeth yn unig a'n gwnaethau i haeddu didrangc boenau, a gwell fuaſau i ni fod erioed heb ein geni na dioddef diniſtr anocheladwy, yr hyn oedd raid fod i'n rhan, oni buaſai i Fâb Duw, trwy ei Offrymiad ei hun yn Offrymmedig unwaith ar y Groes, wneuthur cyflawn berffaith a digonawl Aberth, ac iawn i Dduw tros bechodau'r holl Fŷd. Y lleſhâd a ganlyn y Prynedigaeth yma ſydd mor fawr anfeidrol ac anghyffelyb, ai fod cymmaint uwychlaw 'n dealltwriaeth, ac y mae efe ein Haeddedigaeth. Hyn yr ŷm ni i ddatcan ac i gyhoeddi i'r holl Fŷd, beth a wnaeth Duw i achub Dynol-ryw rhag y Damnedigaeth hynny 'r oeddynt yn ei haeddu, a rhoddi i ni drachefn yr happuſrwydd hynny a'r gogoniant yr hyn nid allaſem ni byth ddiſgwyl neu obeithio ei fwynhau, oni buaſai i Griſt farw droſom. Deuwch gwrandewch, y rhai oll a ofnant Dduw, a mynegaf yr hyn a wnaeth Duw i'm Henaid, *Pſal.* lxvi. 4. *Fy enaid, bendithia'r Arglwydd: a chwbl y ſydd ynof.*

ynof, ei Enw ſanctaidd ef. Fy enaid, bendithia'r Arglwydd: ac nac anghofia ei holl ddoniau ef; Yr hwn ſydd yn maddeu dy holl anwireddau: yr hwn ſydd yn iachâu dy holl leſgedd; Yr hwn ſydd yn gwaredu dy fywyd o ddiſtryw: yr hwn ſydd yn dy goroni a thrugaredd ac a thoſturi: Pſal. ciii. 1, 2, 3, 4. A pha lawenydd a diolch gan hynny a ddylei pob Chriſtion da goffau y rhagorol gariad hwn o Dduw yn Iechydwriaeth Pechaduriaid trwy Ieſu Griſt? Hwn oedd y gwir ddiben a bwriad yr Ordinhâd hon, i gadw tragywyddol goffa am ryfeddol gariad Chriſt yn rhoddi i lawr ei einioes droſom, *Gwnewch hyn er coffa am danaf* medd ein Iachawdwr ychydig cyn ei Groeſhoelio, yr hyn oedd Orchymmyn Cyſſegr-barchus ein *Meiſtr a'n hunig Iachawdwr fel hyn yn marw droſom.* Nid allwn ni naccau ufudd-dod iddo, heb fod yn euog o anniolchgarwch erchyllaf, a dirmyg o'i dduwiol fawrhydi ef. Efe ai goſododd er Coffadwriaeth Cyſſegr-barchus o'i fawr gariad i ni, yn rhoddi ei einioes troſom ni ddynion, ac er ein Iechydwriaeth, gan hynny y mae yn Gorchymmyn i ni ei wneud ef er coffa am dano. Ac mae St. *Paul* yn dywedyd i ni, mae cynnifer gwaith bynnag y bwyttaoch y Bara hwn, ac yr yfoch, y Cwppan hwn y danghoſwch farwolaeth yr Arglwydd hyd oni ddelo. Ond am y dynion hynny yn ein myſc ſy'n proffeſu eu hunain yn Griſt'nogion, ac yn gobeithio am Iechydwriaeth trwy Ieſu

Ein Rhwymedigaethau i Gymmuno yn fynych.

Ieſu Griſt, heb ufuddhau i'w Orchymmyn hwn, ſydd ammarch eglur i'w dduwiol Fawrhydi; ac ſe eill yn gyfion ddannod i ni Griſt'nogion fel ac y gwnaeth ef unwaith i'r Iuddewon. Pa ham yr ydych yn fyngalw i Arglwydd, ac nad ydych yn gwneuthur yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd? Mor anheilwng ydym ni o'r Iechydwriaeth honno a wnaeth efe i ni, os naccâwn iddo ffafor cyn lleied, y fath ddymuniad rheſymmol megis ei goffâu ei Angau a'i chwerw Ddioddefaint unwaith yn y Mîs, neu o'r mwyaf deirgwaith yn y flwyddyn, 'Yr hwn a ymoſtyngodd i Angau ar y 'groes droſom ni bechaduriaid truain, y rhai 'oeddym yn gorwedd mewn tywyllwch a chy-'ſgod Angau, y gallai 'n gwneuthur ni yn blant 'i Dduw, a'n dyrchafel i fywyd Tragywyddol.' Yn Sacrament Swpper yr Arglwydd yma mae i ni bardwn, a maddeuant o'n holl bechodau, a Grâs a chymmorth Glân Yſpryd Duw, a gobaith bywyd Tragywyddol gwedi ei gynnig i ni'n rhâd. Ac am hynny pe ni byddai gennym na chariad, na chyfrif neu barchedigaeth i eiriau diwaethaf ein Iachawdwr Croeſhoeliedig, etto yn ddiau yr yſtyriaeth o'n lleſhâd preſennol, ac ſydd i'w gael yn y bŷd a ddaw, a all wneud ini fynd yn fynychach at Fwrdd yr Arglwydd nac yr ydym arferol.

Bûdd dynion a ddylae eu gwneud yn rhwymedig i gymmuno 'n waſtad o herwydd ei fawr leſhâd ef.

Hyd

Ac i fod mewn Cariad perffaith a pob Dyn.

Hyd yn hyn y câdd y Cymmunwr ei gyfarwyddo i oſod ei Galon yn uniawn tu ag at Dduw; Ond nid hyn yw'r cwbl, rhaid iddo fyned ymlaen ac edrych pa fodd y mae gwedi ei chynnheſu tu ag at ei gymmydog, gan ein bod yn eglur gwedi'n gwahardd, *Math.* v. 23, 24. i offrwm un rhodd neu Aberth i Dduw, os bydd ein Calonnau gwedi eu lefeinio a malais, câs neu ddial. Os dygi dy rôdd i'r Allor, ac yno dyfod i'th gôf fod gan dy Frawd ddim yn dy erbyn, gâd yno dy rôdd ger bron yr Allor, a dôs ymmaith: Yn gyntaf cymmoder di a'th Frawd, ac yno tyred, ac Offrwm dy rodd. Yn y fan hyn y gwelwch fod Chriſt yn rhoi Trugaredd o flaen Aberth, Ac yr oedd rhai o'r hên Dadau, yn cyttuno yn gyffredin fod geiriau ein Iachawdwr yn hyn o fan yn bwrw yn uniawn at y Sacrament hwn, er mwyn gwneud yr holl gymmunwyr yn rhwymedig i faddeu pob math ar gam, cyn iddynt ryfygu bwytta o'r Bara hwnnw ac yfed o'r Gwppan hwnnw. Ac fe ddywedir yn eglur *Mat.* vi. 14, 15. Ni dderbynnir mo'n Gweddiau, ac na Selir mo'n pardwn yn y Nefoedd tan yr amſer y maddeuwn i ddynion eu Camweddau; ac yn ſiccr nid allwn ni byth gael croeſaw, na bod yn deilwng gyfrannogion o'r Wledd Nefawl hon, Lle y mae Ieſu Iachawdwr yr Edifeiriol, a Thywyſog Tanghneddyf yn yſprydol yn breſennol; oddigerth

Maddeu camweddau addiſgwylir gan Gymunwyr

ddigerth i'n hedifeirwch ein cymmodi ni a Duw, a'n Cariad perffaith a holl Ddynol ryw.

Y Cariad yma o'r Galon, yn maddau Camweddau, ſydd rhaid iddi amlygu ei hun wrth y Llaw yn rhoddi i'r Tlawd yn ol eu hangenrheidiau. *Cariad i'r Tlawd.*

Yr ŷm yn darllain, pan fyddyd yn miniſtrio 'r Sacrament hwn yn Nyddiau 'r Apoſtolion, ſe fyddai yr pryd hynny gaſcliadau helaeth o Arian tu ag at faentumio 'r Gwyr Eglwyſig anghenus, a Gwyr Llyg, *Actau* ii. 44, 45, 46. ar 1 *Cor.* xvi. 1. A *Theodoret* ſy'n dal ſulw, i *Theodoſius* yr Ymmerawdwr, pan ddae 'r amſer i Offrymmu, godi, a rhoddi ei Offrymmau a'i ddwylo ei hun. Ni ordeinwyd pa faint y dylai pob dyn ei roddi ond pob dyn a gynghorwyd ac a orchymmynwyd i Offrwm rhyw faint yn ol ei allu yr hyn beth os eſceuluſau neb, y Tadau a'i barnent megis Cymmunwyr annheilwng, ac yn ſicer ni ddichon dim o fewn ein gallu ni mo'r effeithiol dderchafu ein Gweddiau a'n Deſoſiwnau at Dduw a Chariad. F' ellir dal ſulw yn dda, *Mat.* vi. Fel y darfu i'n Iachawdwr roi Eluſen rhwng *Gweddi* ac *Ympryd.* Ac felly fei gelwir ei dwy aſcell hi, heb pa rai ni ddercha hi byth at Orſeddfaingc Duw. Tra bu *Cornelius* yn ymprydio, ac yn Gweddio, rŷm yn darllain fel y danfonwyd Angel ar frŷs, o'r Neſoedd atto a'r Gennadwri ddaionus hon, Dy Weddiau a'th Eluſenau a dderchafaſant yn goffadwriaeth ger bron Duw, *Act.* x, 4. Y neb a gymmero drugaredd ar y Tlawd ſydd yn rhoddi

echwyn i'r Arglwydd, a'i rodd a dâl efe iddo drachefn. *Dih.* xix. 17. Gorchymmyn i'r rhai ſy Oludog yn y Bŷd yma, ar iddynt ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, ſod yn hawdd ganddynt roddi a chyfrannu: Yn Tryſſori iddynt eu hunain ſail dda erbyn yr amſer ſŷdd ar ddyfod, fel y caffont afael ar y bywyd Tragywyddol. 1 *Tim.* vi. 17, 18, 19. Oni wyddoch chwi fôd i'r rhai ſy'n gwneuthur pethau Cyſſegredig yn bwytta o'r Cyſſegr, a'r rhai ſyn gwaſanaethu'r Allor ynghyd-gyfrannogion o'r Allor. Felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd, i'r rhai ſy'n pregethu'r Efengyl fyw wrth yr Efengyl. 1 *Cor.* ix. 13, 14. Os nyni a hauaſom i chwi bethau yſprydol, a'i mawr yw os nyni a fedwn eich pethau Cnawdol? *Adnod.* 11. Ond nyni a allwn yn gyfiawn gwyno gyda St. *Baſil*, ein bod yn adnabod rhai a Ymprydiant ac a Weddiant, a alarant ac a ochneidiant, ie ac a wnânt bôb gweithred Grefyddol ni chyſt iddynt ddim, ond ni roddant un ffyrlling i'r Tlâwd. Pa lleſhâd fydd (medd efe) o'i holl Dduwiol ſwyddau eraill!

Gweddi.

A phan ddarffo i'r Cymmunwr fyned rhagddo hyd yma tuar Allor, yn ei Ymholiad, Edifeirwch, &c. Nid oes iddo anghofio un parodrwydd arall ſy'n perthyn i'r Dyledſwydd o Gymmuno 'n deilwng, yr hwn er nad yw gwedi ei grybwyll Yng-hatechiſm ein Heglwys ni, etto mae'n waſtad gwedi ei Arwyddocau megis rhan angenrheidiol o'n parodtoâd i'r Sacrament, hynny yw, Gweddi,

neilltuol,

neilltuol, a chyhoeddus. Dyledſwydd ydyw, ar ba un y mae'n holl Fendithion preſennol ac i ddyfod yn ſefyll, *Mat.* 7. 8. ar 21. 22. Ac y mae'r ddyledſwydd hon o Weddi yn perthyn mor agos i'r Sacrament hwn, a bôd yr holl Fendithion a gynhwyſir ac a addewir ynddo yn dyfod yn unig trwy ein Gweddiau. A diammeu nid eill y dŷn hwnnw ſy'n cyflawni y ddyledſwydd hon yn gydwybodus yn ei Stafell, ac yn yr Eglwys fod fyth yn ammharod i'r Sacrament hwn, ac heb hawl i unig ffafor Duw a'i Fendith; *Canys y mae Llygaid yr Arglwydd ar y rhai cyfiawn, ai gluſtiau ſy 'n agored i'w Gweddi hwynt*, i. Pet. 3 12. Ymarfer a *Gweddi* yn waſtadol yw'r ffordd oreu i feiſtrioli 'n tueddiadau drwg a'n gwŷniau llygredig, ac i orchfygu 'n harferion drygionus: Y mae'n cadw bywiol ymſynniad o dduw a chrefydd yn ein calonau, ac yn ein cadarnhau yn erbyn y profedigaethau hynny ſy'n ymoſod yn ein herbyn; Y mae'n yſprydoli ein natur, ac yn derchafu'n Heneidiau uwchlaw yr bŷd hwn, ac yn ein cynnal tan drallodau a gofidiau y bywyd hwn, trwy Sancteiddio y cyfryw gyſtuddiau; y mae'n ein harwain ni ei feſur ychydig i berffeithrwydd buchedd Griſtnogol, ac mae'n cadw'r undeb honno rhwng Duw a'n Heneidiau, yr hwn ſy'n porthi ein bywyd yſprydol a Grâs a daioni; heb weddi ni wiw i ni geiſio cyflawni 'r dyledſwyddau Criſtinogawl hynny ſy ddyledus arnom, neu i lwyddo yn ein negeſeuau amſerol, y rhai

ſy raid i Dduw eu bendithio a'u gwneuthur yn llwyddianus. Ac fel y mae gan weddi yn gyffredinol y mawr fendithion ar lleſhâd hyn yn ei chanlyn, felly rhowch i mi gennad i ddwyn ar gôf i chwi tan y Pwngc hwn, fod y Gweddiau cyhoeddus hynny, a'r Duwiol yn ſwyddau yr ŷm ni yn eu hoffrwm i Dduw yn ein Heglwyſydd, nid yn unig yn fwy cymmeradwy ganddo ef, ond hefyd yn tueddu llawer mwy er Adeiladaeth a lleſhâd i ni ein hunain; nid oes fodd na byddont yn fwy cymmeradwy gan Dduw, o herwydd trwyddynt hwy y derchefir, ac y maentumir ei Anrhydedd ai Ogoniant, lawer gwell yn y Bŷd, na thrwy ei dirgel ſwyddau duwiol, Trwy 'r Arwyddion hyn oddiallan, yr ŷm ar gyhoedd yn dadcan i'r holl Fŷd y cyfrif a'r parchedigaeth ſy gennym oddifewn i'w dduwiol berffeithrwydd a'i ddaioni; wrth hyn y *llewyrcha felly ein goleuni ger bron dynion, fel y gwelont ein gweithredoedd da, ac y gogoneddont ein Tâd yr hwn ſydd yn y Nefoedd*, Math. v. 16. Nid oes un dyledſwydd yn y Scrythur yn fynychach gwedi ei gorchymmyn, yr un yn fwy difrifol gwedi ei chymmellu arnom, na hon o Weddi Gyhoeddus. Y mae gennym ſiampl yr holl Wŷr da ym mhob oes, yn ei chylch, ac o Griſt ei hun, yr hwn oedd beunydd yn y Deml, ac yn y Synagogau, a diammau, yn cyrchu 'n fynych i'r lleoedd hynny ar yr Oriau y byddid arferol o Weddio, oblegid y pryd hynny 'r oedd ganddo

Gweddiau cyhoeddus Orchymmynedig.

ganddo 'r amſer mwya cyfaddas oddiwrth y Cynnulleidfaoedd Cyffredin hynny, i ddyſcu, ac i annog *i Ffydd* ac *Edifeirwch*. *Yn ail*, ni a allwn ddiſgwyl mwy bendithion a llwyddiant yn *ein heirchion* a'n dymuniadau, pan ymgyſſylltom a Gweddiau cyffredin ein Heglwys, nac oddi wrth Weddiau dirgel, oblegid ein Iachawdwr mewn môdd enwedigol a addawodd i'r cyfryw Gynnulleidfaodd ei unig breſſenoldeb, Canys *lle bo dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt*; Ni ddywedodd yn unlle y cyffelyb beth am weddi neilltuol, er bod y ddwy yn dda iawn, ie mae pob un o'r ddwy yn angenrheidiol i ddechrau a diweddu buchedd Griſtnogol; Ac y mai'n arwydd drwg iawn o ryw wreiddyn drygionus neu gilydd i neb fod yn *ddieithr i Dŷ Gweddi*, Yr hyn yw un o'r bendithion a'r rhyddid mwyaf (pe gwyddem pa fôdd i briſio 'r un hyn) ar a allwn ni gael yn y Bŷd hwn; ac a gyfrifwyd felly yn waſtad ym myſg yr holl Wŷr doethion a daionus. Eglur yw, fod y *Tyrciaid*, y rhai a alwn ni anffyddloniaid, yn myned i'w Duwiol ſwyddau Cyhoeddus bum waith bôb dydd; ac oni chodant hwy yn y Farn i'n herbyn ni Griſt'nogoin, y rhai nid allwn ganiattâu amſer i fynd unwaith neu ddwy waith yn y dŷdd i Dŷ Dduw, pan fo gennym amſer a chyfleuſtra. Os bernir Dynion am bôb *Gair ſegur*, diammeu ni ddiangant heb goſpedigaeth am yr holl eſceuluſtra o'i dyledſwydd hon o Weddi. Ond i fynd ymlaen.

Darllain a Myſyrio. At y Ddyledſwydd hon o *Weddi wreſog*, y Cymmunwr a ddylai dreulio rhyw faint o amſer yn darllain a Myſyrio, i dderchafu ei Enaid i dduwiol a Nefol gywair: Darllain ſydd ddyledſwydd priod i ynnill yſprydol ymborth a lluniaeth, a myfyrdod ſydd ffordd fuddiol i'w fwynhau o'n mewn. Yr yſtyriaethau duwiol hynny, ac ſy gymmhwyſaf i'n difrifol fyfyrdod, a'r achos cyſſegrbarchus yma, ydynt yn fy nhŷb i, Bregeth ein Iachawdwr ar y Mynydd; *Cariad Duw yn Iechydwriaeth pechaduriaid trwy Ieſu Griſt*, *Edifeirwch*, *Ffydd*, *Cariad Marwolaeth a Barn*, *Gwynfydedig gyflwr y Cyfiawn yn y Bŷd a ddaw*, *a chyflwr greſynnol y damnedig yn Uffern.* At y rhain ar cyffelyb fel y gofodir hwy o'ch blaen, y dylid Myfyrio hyd oni chodo rhyw driſtwch Calon, rhyw wres o ddefoſiwn, rhyw weithred Ffydd, rhyw fflam o Gariad yn eich Eneidiau.

Fel hyn y rhoddais yn fyrr och blaen Natur, ac Angenrheidrwydd i ymbarattoi i'r *Sacrament*, yr hyn mewn meſur mawr ſy'n cynnwys holl ddyledſwydd buchedd Chriſtion, ſef *Edifeirwch tu ag at Dduw*, *Ffydd yn ein Harglwydd Ieſu Griſt*, *a Chariad perffaith tu ag at ein Cymydog*: Ac hefyd rwy 'n gobeithio, y geill pwy bynnag ſy'n ein myſc ond gwneud ei orau i barattoi eu hunain i'r Cymmun Sanctaidd, yn ôl y cyfarwyddiadau a rag-grybwyllwyd (trwy gymmorth Duw) ar bob Achoſion ddyfod at Fwrdd yr Ar-

glwydd

glwydd heb yr ofn lleiaf a'r perigl o *Fwytta ac Yfed damnedigaeth iddynt eu hunain.*

Ac yn awr geill rhai Pobl dybied fôd y Traethawd hwn fel pe bae'n rhoddi gormod rhydd-did, a chyffur i neffau at Fwrdd yr Arglwydd gyda llai parodrwydd ac yn amgen nag y meiddiai dynion i wneuthur. Ond nis gwn i ddim achos neu Reſwm am y fath dŷb, ped yſtyrient yn ddiarbed ardderchowgrwydd Perffeithrwydd y Cyfarwyddwr a'r Cydymmaith hwnnw a ddilynais trwy 'r holl Draethawd yma, ac i oſod allan y Ddyledſwydd hon o Gymmuno 'n fynych yn amgen i'r peth y mae'r Eglwys yn ei ofyn, ſydd ammarch i Dduw ac i ni ein hunain; a gallaf ddywedyd yn hŷf, na ddioddefodd un rhan o Waſanaeth Duw fwy ar hyn o Achos, na honno o'r Cymmun Sanctaidd, myrdd o Bobl yn eu holl Fywyd, heb feiddio (er eu bod yn fucheddwyr da iawn) gyfrannu o Swpper yr Arglwydd, rhag ofn bwyta ac yfed eu Barnedigaeth eu hunain.

GWEDDIAU a MYFYRDODAU I YMBARATTOI i'r CYMMUN.

YN OL,

Fel y mae EGLWYS LOEGR yn gofyn gan eu CHYMMUNWYR.

Gweddi at Dduw am ei Raſlawn gynnorthwy ai hyfforddiad i'n Parattoi i'r Cymmun.

SANT, Sant, Sant, Arglwydd Dduw Sabboth, Nefoedd a Daiar ſydd yn llawn o'th Fawrhydi, ac o'th Ogoniant, Myfi yr annheilyngaf o'r holl Greaduriaid, ydwyf yma, mewn pôb Goſtyngeiddrwydd Enaid a Chorph, yn ymddaroſtwng fy hun o'th flaen di, gan gydnabod fy ngwendid a'm diffrwythdra i wneuthur dim ar ſydd dda a chymmeradwy yn dy olwg, ac am hynny, yr wŷf yn oſtyngedig

dig yn deiſyf nerth yſprydol dy râs a'th lan Yſpryd, i rwyddhâu fy egni hyn i gyfrannu yn deilwng o'r Cymmun Sanctaid hwn o Gorph a Gwaed Chriſt, yr hyn a Orchymmynnodd i mi wneuthur er Côf am dano, a'r lleſhâd hynny yr ydym yn ei dderbyn oddiwrtho. Dyſc i mi O Arglywdd, yr iawn ffordd, ac arwain fi yn y llwybrau y mae i mi ymbarattoi yn Sanctaidd; fel i'm derbynnir megis teilwng a chroeſawus Wleddwr ar dy Fwrdd Nefôl hwn; meddianna fynghalon a gwir ymſyniad o'r Dirgeledigaeth mawr yma, ac o Ardderchowgrwydd dy Drugaredd, yn arlwyo y Bwrdd hwn i'n hymborth Yſprydol: Yſprydola fy Enaid a phur a duwiol feddyl-fryd ac yn lle 'r brattiau budron hynny o'm cyfiawnder fy hûn, dillada fi a Chyfiawnder y Sainct, ac fel y byddo fynghalon (er mai gwael yw'r lle i dderbyn fy Iachawdwr) yn lan, ac yn gymwys i Gymdeithas y Nefol Gymanfa honno a gyfarfyddir yn y Wledd Sanctaidd hon, trwy *Ieſu Griſt* ein Harglwydd, *Amen*. *Ein Tâd*, &c. Edrych *Pſal.* xxiii. xxvi. cxi.

Gweddi am Ddawn a Grâs Edifeirwch.

HOLL-ALLUOG a Thragywyddol Arglwydd Dduw, Yr hwn wyt o Olygon purach nac i edrych ar anwiredd, ac yn bennaf a Orchymmynaiſt i'r ſawl oll ſy'n amgylchu dy Allor, olchi eu Dwylo mewn diniweidrwydd, Caniatta i mi, ddiffuant Ediferwch am fy mhechodau

chodau a bafiodd, triſtwch Calon a Chyſtudd Yſpryd, i alaru am fy nrygioni, a bwriad cadarnaf a thra ſiccr i ddilyn Buchedd newydd. Llef dy anfeidrol ddaioni a'th drugaredd ydyw, Os gadewiff y drygionus ei ffordd, ar Gŵr anwir ei Feddyliau, ti a gymmeri drugaredd arno, ac ai harbedi ef yn helaeth, O bydded ith ddaioni o ba un y cefais gymmaint rhan a phrofiad helaeth) fy nhywys i Edifeirwch nid i Edifarhau o hono, fel y byddwyf Wleddwr cymmwys, ar Fwrdd dy Fâb! Trugarha wrthif, O Arglwydd; ac yn ol lliaws dy doſturiaethau dilea fy anwireddau er mwyn dy drugaredd Ynghriſt Ieſu, mâb dy gariad, yr hwn a oſodaiſt yn jawn tros ein Pechodau, Caniattâ hyn O drugarog Dâd er mwyn fy Iachawdwr a'm Prynwr Bendigedig. *Amen*, Edrych *Pſal.* vi. xxxv. xxxii. xxxviii.

Gweddi o flaen Hunan Ymholiad.

O Arglwydd, ti yr hwn wyt chwiliwr ein holl Galonnau a barnwr y Meddyliau, yngolwg pa ûn y mae pob peth yn noeth ac yn Agored, Rhynged bôdd it roddi pelydr dy Nefol Oleuni, i ddatcuddio holl bechodau a gwendid fy muchedd a bafiodd, a pha beth bynnag heblaw hyn a wyddoſt i mi wneud ar fai, fel na bô o hyn allan i un pechod dirgel orwedd heb ei ddatcuddio, ac yn llygredig yn fy Enaid, fel trwy holi fy muchedd a'm hymarweddiad trwy dy Gyfraith, Rheol a Meſur fy Nyledſwydd, y gallwyf

wyf ddeall gwir helynt a chyflwr fy Enaid, ac o iawn deimlad ac yſtyried fy holl droſeddiadau trwy gynnorthwy dy Râs a'th Nefol Fendith, i'm nerthir i adnewyddu fy muchedd, a throi fy Nhraed at dy dyſtiolaethau, mor ffyddlon i chwilio ac i holi fy nghydwybod fy hun, fel y gallwyf ddyfod yn Sanctaidd ac yn lan i'r Wlêdd Nefol honno, a chael ty nerbyn fel Cymmunwr teilwng o'r Bwrdd Sanctaidd hwnnw at ba un i'm gelwaiſt: Caniattâ hyn er mwyn dy drugareddau yn Griſt Ieſu *Amen.* Edrych, *Pſal.* cxxix.

Rheolau byrrion o Hunan Ymmholiad ar bob un o'r Gorchymmynion.

Y GORCHYMMYN. I.

ER Na ddarfu i mi fel Anghredadyn wadu bod Duw, neu yn annuwiol ymwrthod ag ef trwy ymadel a'r Ffŷdd, er hynny oni cherais, ewyllyſiais, ac ymhyfrydais mewn pethau eraill yn fwy nac yn Nuw? Neu, onid ofnais ddynion, ac arſwydais ddigofaint y Byd yn fwy na Duw? Neu onid ymddiriedais i ddynion ac yr hyderais ar y Bŷd yn fwy nac ar Dduw? Onid anobeithiais yn nhrugaredd Duw? Neu trwy ryfygu gormod arno ef, ymwrolais mewn Pechod? Oni bum i yn anniolchgar am y trugareddau a dderbyniais? Neu, Oni chymmerais y Gogoniant, a'r Anrhydedd o'r peth yr ydwyf yn awr yn ei fwynhau i mi fy hûn yn fwy nag i Dduw? (Dywed)

wed) O Dduw bydd drugarog wrthyf Bechadur, ac na oſod hwn (neu 'r Pechodau hyn) i'm herbyn. Adrodd yr un peth yn niwedd pob Gorchymmyn.

II.

Er na ddarfu i mi addoli Duw trwy Ddelwau, etto oni ddarfu i mi groeſawi ynfyd a gau dyb o hono ef? Neu oni ddarfu i mi o'm gwirfodd eſceuluſo dyfod i'r Eglwys i wrando Gweddiau Cyfferdin, pan nad oedd gennif achos cyfiawn i'm rhwyſtro? Neu oni ddarfu i mi ymddwyn fy hun yn anweddus, heb barchedig ofn, neu'n wagſaw tros amſer gwaſanaeth Duw? Neu oni ddarfu i mi o'm gwirfodd eſceuluſo dyfod i Swpper yr Arglwydd pan oeddwn gwedi fy ngwahodd iddo; Neu oni ddarfu i mi yn fyrbwyll, ac yn ymryfus dderbyn y Sacrament heb ymbarattoad? Neu oni thorrais fy Addunedau ar llawn-fwriadau a wneuthum y pryd hwnnw?

III.

Os ni ddarfu i mi yn amlwg gablu Enw Duw, etto oni ddarfu i mi ddywedyd yn ddiyſtyr, neu 'r ammharchus am dano ef? Neu oni ddarfu i mi yn halogedig watwor ar, neu gamarferu ei leoedd Cyſſegredig, neu Weinidogion, neu ryw beth arall a Cyſſegrwyd iw Waſanaeth? Neu oni chymmerais enw Duw yn ofer trwy gyffredin dyngu a rhegu? Neu oni chymmerais i Lŵon Anudonaidd ac Anghyfreithlon? Neu, oni thorrais fy Addunedau a'm llawnfwriadau, yn enwedig fy Adduned Bedyddiol?

IV.

IV.

Oni ddarfu i mi eſceuluſo Addoſi Duw ar ei Sabbothau? Oni thorrais i ran o honynt mewn gwag ddifryrrwch, ſegur ymddiddanion, ymweliadau, a llawer o drafferthion eraill angenrheidiol? Neu oni ddarfu i mi adel i eraill halogi 'r Sabboth, pan oedd yn fyngallu ẽu hattal rhag gwneuthur felly?

V.

Oni bum yn yſtyfnig, heb roddi parch ac ufudd-dod, i'm Rhieni, gan ddiyſtyru eu Cynghorion, dirmygu eu llywodraeth, a chwennychu eu Golud hwynt cyn eu Marwolaeth? neu oni ddarfu i mi gyfrannu i'w cyfreidiau pan oedd angen arnynt a chennyf i'w cymmorth hwynt? neu oni bum yn anffyddlon i'm Tywyſog, yſtyfnig ac yn anffyddlon i'm Meiſtr, yn wrthnyſig ac yn anniolchgar i'm Gweinidog, yn annynad, ac angharedig i'm Cyfaill a'm Cydymmaith.

VI.

Er na ddygais ymmaith Hoedl neb mewn gweithred, etto oni wneuthym Fynghymmydog yn flin o'i Einioes trwy Orthrymder, Creulonder a thrais i'w erbyn? Neu oni, ddarfu i mi trwy ymladd neu ymryſon ei anafu ef; Neu oni ddenais i ef trwy ryw fai arall neu anghymmedrolder, i ddiniſtrio ei Iechyd, ac felly byrrhau ei ddyddiau? Neu oni ddarfu i mi, trwy dwyllodrus, a dirmygus ymadroddion ddrygu ei enw da, a'i gymmeriad? Neu oni fum trwy fy gloddeſt

fy

fy hun a'm hanghymmedroldeb yn bwytta ac yn yfed achlyſur marwolaeth i mi fy hun.

VII.

'Er darfod i mi ddiangc rhag gweithredoedd 'dirfawr o Odineb a Phutteindra, etto oni ddar-'fu i mi chwennychu yn fynghalon, ac eſceu-'luſo 'r moddion i gadw fy niweirdeb fy hun, 'ar Eiddo eraill? Neu oni ddarfu i mi trwy 'Lothineb a Meddwodd, neu ryw Feddyliau a-'ſlan eraill halogi fy Enaid? Neu onid arferais 'fy hun i ſerthedd, Coeg ddigrifwch, ac anwe-'ddus ymwiſgiad, ac Aniwair Ymddygiad yn 'fy ymarweddiad Cyffredin?

VIII.

'Os ni bûm yn euog o Ledrad Cyffredin, ac 'amlwg, etto a fûm i yn gywir, ac yn union 'ymhôb peth a gymmerais mewn llaw? Neu o-'nid euthum mewn Dylêd pan oedd fynghydwy-'bod yn dywedyd i mi nad oeddwn abl i dalu, 'a gwneuthur iawn? Neu oni ddarfu i mi ddi-'frodi fy Meddiannau fy hun, neu eiddo eraill, 'trwy fyw 'n afradlon? Neu oni ddarfu i mi 'trwy drawſter a gorthrymder fynnu gan fy 'Iſafiaid, neu trwy Orthrech Anghyfreithlon 'fanteiſio oddiwrth eu hangenrheidiau hwy?

IX.

'Os ni ddartu i mi o flaen Swyddog dyngu 'ar gam yn erbyn neb, etto oni ddarfu i mi 'arferu fy hun i ddywedyd Celwydd a ſclan-'drio? Neu, oni chyhuddais i fynghymmydog 'yn Anghyfiawn? Neu oni chelais Wirionedd un

'arall

'arall, pan oeddwn rwymedig trwy Gyfiawnder
'a chariad i'w ſiccrhâu ef? Neu, oni cheiſiais i
'yn anghyfiawn gynnal i fynnu, neu roddi i lawr
'fy ngeirda fy hûn, neu 'r eiddo eraill?

X.

'Oni ddarfu i mi yn ddirgel duchan yn er-
'byn Rhagluniaeth Duw, megis pe bae gan e-
'raill rŷ ormod, a chennyf finneu rŷ fychan?
'Neu, oni ddarſu i mi trwy foddion anghy-
'freithlon ymegnio i ddifuddio eraill o'i Da a'i
'llwyddiant? Neu, a ddarfu i mi lafurio yn
'gywir ac yn Oneſt i ynnill fy mywyd; ac i
'fod yn fodlon ym mha ryw fuchedd bynnag
'y rhyngodd bôdd i Dduw fy ngalw?

Cyffes Edifeiriol am Bechodau, gyd ag ymbil Oſtyngedig am Drugaredd, a Maddeuant.

HOLL-ALLUOG a Thragwyddol Dduw, yr hwn ni chaſhei ddim ar a wnaethoſt, ac a faddeui bechodau pawb y ſy Edifeiriol; Crea a gwnâ ynof newydd a drylliedig Galon; fel y bo i mi gan ddyledus ddolurio am fy mhechodau, a chyfaddef fy nhrueni, allu caffael gennit, Duw yr holl Drugaredd, gwbl Faddeuant a gollyngdod trwy *Ieſu Griſt* ein Harglwydd, *Amen.* Edrych *Pſal.* li. vi. xxxii. xxxviii.

Ymma gelwch i'ch cof eich pechodau trymaf.

CYSTUDD.

CYSTUDD.

FY Nhâd, *Pechais yn erbyn y Nêf, ac o'th flaen ditheu, ac nid ydwyf mwy deilwng i'm galw yn Fâb i ti. Gwae fi O Arglwydd yr hwn y Beichiogwyd arnaf ac a anwyd mewn Pechod*; Meddyliau Fynghalon ſy'n gogwyddo at ddrwg o'm Ieueingctid; gwae fi ddarfod i mi bechu yn dy erbyn di fynghreawdwr a charedig wneuthurwr daioni! Arglwydd mi a wneuthum ddrwg yn waſtad yn dy olwg di, ac ni bu fy muchedd fawr amgen nac un yrfa waſtadol mewn annuwioldeb aniolchgarwch, ac annheilwng daledigaeth am dy holl ddaioni a'th Drugaredd i mi! Gwae fi ddarfod i mi fel hyn *dalu i'r Arglwydd! O na bae fy mhen yn ddyfroedd am Llygaid yn Ffynnonau o Ddagrau, fel yr wylwn ddydd a Nos am fy mhechod!* O Arglwydd graſuſol, edrych arnaf megis yr edrychaiſt ar yr Apoſtol St. *Petr*, A bydded i'th olwg dyner drywanu felly fynghalon Garregog, fel y gallwyf wylo *yn chwerw am fy mhechodau, a dyfod ynoſi y duwiol driſtwch hwnnw ſydd yn gweithio i Edifeirwch er Iechydwriaeth ni bydd Edifeirwch o honi, er mwyn Ieſu*, Amen. Edrych, *Pſal.* xxv. 32, 38.

Llawn fwriad i ddilyn buchedd newydd.

AC yn awr, O Arglwydd, nid ydwyf yn unig gyda mawr wradwydd a chywilydd wyneb yn cyfaddef, ac yn wylo am ddrygioni a gwagedd fy holl fuchedd, ond yr wyf yn ſiccr fwriadu

fwriadu ac amcanu (trwy gynnorthwy dy râs a'th lân Yſpryd yn fy nghyfarwyddo i) i ymwrthod a Diawl ai holl weithredoedd, a rhodres, a gorwagedd y Bŷd anwir, a holl bechadurus chwantau y Cnawd. Rhynged bodd i ti, O Arglwydd, nerthu a chadarnhau yr holl lawn-fwriadau daionus hyn ynof: Ac ydd wyf yn mawr ddiolch i ti, O Nefol Dâd, am i ti fyngalw i gyfryw Stad Iachydwriaeth trwy *Ieſu Griſt* fy Iachawdwr, *Yr hwn a fu farw tros fy mhechodau, ac a gyfododd trachefn tros fynghyfiawnhâd*; ac mi a attolygaf i ti er ei fwyn ef, roddi i mi Râs môdd y gallwyf aros yn yr unrhyw holl ddyddiau fy Einioes. *Amen.* Edrych *Pſal*, i. xxiii, xxiv, xxv, cxix, cxxvi.

Gweddi am Ffydd yn Nhrugaredd Duw trwy Griſt.

HOLL-ALLUOG Dduw ein Tâd Nefol, yr hwn er mwyn cadarnhâd ein Ffydd a'n Gobaith yn dy drugaredd a fynegaiſt yn dy Efengyl Sanctaidd, *Na choller pwy bynnag a gretto yn dy Fâb Ieſu Griſt, onid caffael o honaw Fywyd Tragywyddol*, a hyn *yw yr bywyd Tragywyddol, dy adnabod ti, yr unig wir Dduw, ar hwn a anfonaiſt Ieſu Griſt.* Ychwanega yr Wybodaeth hon a chadarnhâ y Ffydd hon ynof yn waſtad! O na âd i mi orphwys mewn Ffydd farw, onid i mi gael y fath *Ffydd fywiol*, ac ai dengus ei hun trwy gariad a gweithredoedd da; y fath Ffydd Fuddiawl, a ddichon fy nerthu i orchfygu 'r Bŷd, a'm

gwneuthur i yn un ffurf, a delw dy Fâb *Ieſu Griſt*, yn yr hwn yr ydwyf yn Credu! O Caniatta i mi y fath ddwys ymſynniad o'th anfeidrol drugaredd, a ddanghoſwyd i Ddynol-ryw mewn cymmaint o drueni, fel na ddichon fyth fyned allan o'm Meddwl! Yr wŷf yn credu 'n ddilŷs, O Fendigedig *Ieſu*, ddarfod i ti ddioddef ar y Groes i'm hachub i a'r holl Fŷd, oddiwrth euogrwydd, a choſpedigaeth ein Pechodau. O dyro i mi Râs fel y bo i mi *farw i bechod, a chyfodi dracheſn i gyfiawnder!* Derbyn fy Nhriſtwch ammherffaith, Edifeirwch, Ffŷdd, ac ammherffaith Lawn-fwriadau; a bydded i Werthfawr Haeddedigaethau fy Iachawdwr Croeſhoeliedig gyflawni fy holl diffygion ac ammherffeithrwydd. Ti a ddywedaiſt; *Deuwch attaſi bawb ac ſydd flinderog ac yn llwŷthog, ac mi a eſmwythaf arnoch.* O Ieſu Wynfydedig, yr wyf yn dyfod attad mewn pob goſtyngeiddrwydd, ac yn ddwys deimladwy o'm mawr annheilyngdod; O dwg di y baich hwn o bechod troſofi, a diddana fi a gobaith cwmfforddus, o'th Drugaredd a Maddeuant, a Gwirionedd dy Iechydwriaeth, Caniattâ hyn O drugarog Dâd trwy 'r unrhyw dy Fâb *Ieſu Griſt*, *Amen.* Edrych *Pſal.* xix. lvii. *Eph.* ii. 6, 11.

Diolchus gôf am Angau Ghriſt,

HOLL-ALLUOG Dduw, ein Tad Nefol, yr hwn o'th dyner drugaredd a roddaiſt dy un mab Ieſu Griſt i ddioddef Angau ar y Groes

Groes er ein Prynu, ac a oſodaiſt ac a ordeiniaiſt Sanctaidd Ddirgeledigaethau, fel Gwyſtlon o'i Gariad, a gwaſtadol gôf am ei Angau a'i Ddioddefant, er mawr ac Annherfynawl gyſur i ni. Wele, yr wyſi yn garediccaf ac a holl alluoedd fy Enaid a'm Corph yn rhoddi fy mawl a'm diolch ffyddlonaf am dy fawr drugaredd a'th dyner doſturi i mi ac i holl Ddynol ryw, yn danfon dy un Mâb i'r Bŷd i'n gwaredu ni oddiwrth bechod a thrueni, a thrwy ei ryglyddus Farwolaeth a'i Ddioddefaint i bwrcaſu i ni fywyd tragywyddol. Caniattâ, O Arglwydd, i mi allu bob amſer yn ddiolchuſaf gofio y rhagorol Gariad hwn, ſef fy unig Iachawdwr Ieſu Griſt fel hyn marw droſof; a gweithia ynofi y cyfryw Sanctaidd a Nefol Serchiadau, fel y trefnont fynghalon i fod yn Wlêddwr Teilwng ar dy Fwrdd Sanctaidd, gwedi ei barottôi er gwaſtadol gôf am Aberth Marwolaeth Chriſt a'r lleſhad yr ŷm ni yn ei derbyn oddiwrtho. Fy Enaid *bendithia 'r Arglwyd ac nag anghofia ei holl ddoniau ef. Yr hwn ſydd yn maddeu dy holl Anwireddau; Yr hwn ſydd yn iachâu dy holl leſcedd. Yr hwn ſydd yn gwaredu dy Fywyd o ddiſtryw. Yr hwn ſydd yn dy Goroni di a Thrugaredd ac a Thoſturi.* Edrych *Pſal.* ciii. 2, 3, 4.

Gweddi am Râs Cariad Perffaith.

'O Arglwydd, yr hwn a'n dyſcaiſt, na thâl 'dim ein holl Weithredoedd, a wnelom 'heb gariad perffaith; anfon dy Yſpryd Glân a

' thywallt yn fynghalon ragorol ddawn *Cariad*
' *Perffaith*, gwir rwymyn tangneddyf, a holl rin-
' weddau da,' heb yr hwn pwy bynnac ſydd yn byw, a gyfrifir yn farw ger dy fron di; Yn bennaf, pan fyddwyf yn myned i goffau anfeidrol gariad fy Iachawdwr bendigedig yn marw drоſof, na âd i'm Calon fod heb Gariad tuag at fy Mrodyr, dangos dy drugaredd, a maddau i'm holl Elynion, Elynwyr ac yſclandrwyr, a thro eu Calonnau; Yr hyn yr wyf mor ddifrifol yn erfyn troſtynt hwy, fel yr wy yn gobeithio cael trugaredd a maddeuant ar dy ddwylaw di: Gwna fi 'n feddianol o gariad ac ewyllys dâ tu ag at holl Ddynolryw, fel y gallo fy Ffydd weithio trwy Gariad, a threfna fy nghalon yn ôl fy ngallu, i waſanaethu i angenrheidiau y rhai oll a gyſtuddir mewn un môdd, neu ſydd yn gyfyng arnynt mewn Meddwl, Corph neu Stât, ac i wneuthur i bob Dŷn megis yr ewyllyſiwn iddo wneuthur i minneu. O dyro i mi y cariad hwnnw ſy 'n cuddio lliaws o bechodau, fel trwy wneuthur da dros ddrwg y gwypo pob Dŷn fy môd yn ddiſcybl i ti. Caniattâ hyn er mewn *Ieſu Amen.* Edrych *Pſal.* xv, cxxxiii. xl. cxii. *Mat,* xviii. 21. i. *Cor.* xiii.

Gweddi y Boreu y byddoch yn amcanu Cymmuno.

ORaſuſaf a Thragwyddol Arglwydd Dduw, ti a elwaiſt y ſawl ôll ſydd flinderog ac yn llwythog i ddyfod attat ti, trwy Ffydd ac Edifeirwch, a thi a eſmwythei arnynt. Mewn hyder

der o'th Wahoddiad graſlawn hwn, mi a ddeuaf at dy Fwrdd Nefol, heb hyderu yn fy nghyfiawnder fy hun ond yn dy aml. a'th ddirfawr drugareddau di, ac er fy môd yn annheilwng cymmaint ac i gaſclu 'r briwſion ſy'n ſyrthio oddi ar dy Fwrdd di, etto gan mai ti bia o briodoldeb yn waſtad drugarhâu, ni wanobeithiaf, a'm groeſaw caredig; Pardyna fy niffyg o ddyledus barattôad, a derbyn fy mhûr Ewyllys i gyflawni gwaſanaeth rheſymmol i ti, Dillada fi a Gwiſc Briodas, ſef graſau 'r Efengyl, ac yno y mae'n ſiccr gennif y câf fod yn Wleddwr croeſawus wrth dy Fwrdd di, pan ddeuaf yno mewn cyffelybiaeth dy Fab *Ieſu Griſt*, yn yr hwn i'th fodlonir. Cynnyſgaedda fy Enaid a Ffydd fywiol, dwfn Oſtyngeiddrwydd, gwir Ufudd-dod, ſerch Wreſog a Chariad Perffaith, fel y gallwyf fod yn deilwng gyfrannog o'r Sanctaidd ddirgeledigaethau hynny, er mawr ac annherfynawl gyſûr i mi. Caniattá hyn O Nefol Dâd, os bydd dy ewyllys di i hynny, trwy Ieſu Griſt. *Amen.* Ein Tâd, &c. Edrych *Pſal.* xxiii. xxv, xxvi.

Gweddiau a Myfyrdodau byrrion cyn i'r Gweinidog yn yr Eglwys ddechreu Gwaſanaeth y Cymmun. Wrth fyned at yr Allor.

YN lluoſowgrwydd dy dyner Drugareddau, O Arglwydd Dduw, yr wyfi yn awr yn dyfod at dy Allor, O maddeu fy mhechodau, ac

ac nac edrych ar fy annheilyngnod, (Canys Creadur Pachadurus wyfi, O Arglwydd) Ond ar yr annogaethau hyn trwy y rhai y daethum yma, ſef fy nhrueni fy hûn a'th dyner drugareddau ditheu, gan hynny Cynnorthwya fi i gyflawni mewn goſtyngeiddrwydd y peth a fo diffyg arnaf mewn Teilyngdod, bydded i'm ngliniau plygedig a'm calon gyſtuddiedig ddangos na buaſwn ni'n meiddio dyfod yma, oni buaſei dy drugaredd di eſtyn allan y Deyrnwialen Aur, a dywedyd, Deuwch attafi bawb ac ſydd yn flinderog ac yn llythog, ac mi a eſmwythâf arnoch.

Wrth roddi eich Eluſenau.

O Arglwydd, yr hwn ni wrthodaiſt hatling y Wraig Weddw, derbyn yr ychydig hyn yr ydwyfi'n ei Offrwm yn ewyllyſcar tuag at gymmorth neb rhyw un o'th Aelodau tlodion *Marc.* xxii. 42.

Pan ſo'r Offeiriad yn goſod mewn Trefn yr Elfynau i'w Cyſſegru.

YSTYRIA O Arglwydd Dduw o'th Sanctaidd Breſwylfa, ac o Orſeddfa gogoneddus dy Deyrnas deſcyn a Sancteiddia ni.

Pan fyddo'r Offeiriad yn Cymmuno ei hunan.

GWRANDAWED yr Arglwydd arnat, cofied yr Arglwydd dy holl Offrymmau, a bydded

dded fodlon i'th boeth Offrwm, rhodded it wrth fodd dy galon, a chyflawned dy holl gyngor; cyflawned dy holl Ddymuniadau i ti dy hun, i ni, ac i'th holl Bobl. *Amen.*

Pan fyddoch yn derbyn y Bara.

O Arglwydd, nid wyfi deilwng o'r briwfion fy'n fyrthio oddiar dy Fwrdd di, a thi a roddaiſt i ni Fara'r Bywyd, *Dyrò i mi y Bara hwn yn oeſtadol, fel y bwyttawyf o honaw, fel na byddwyf marw yn dragywydd*, Ioan vi. 34, 50.

Ar ol derbyn y Bara.

NID i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod Ogoniant, er mwyn dy Drugaredd ac er mwyn dy Wirionedd.

Cyn derbyn y Cwppan.

BETH a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi? Phiol Iechydwriaeth a gymmeraf, ac ar enw'r Arglwydd y galwaf.

Ar ol Yfed.

BENDIGEDIG fyddo Duw Tâd ein Harglwydd Ieſu Griſt, am ei ddawn anrhaethol yn yr hwn y mae i ni Brynedigaeth trwy ei Waed ef, ſef maddeuant Pechodau.

Pan eloch oddi wrth yr Allor.

FY Enaid bendithia 'r Arglwydd, a chwbl ſydd ynof ei enw Sanctaidd ef; Fy enaid, bendithia 'r Arglwydd, ac nac anghofia ei holl ddoniau ef, Yr hwn ſydd yn maddeu dy holl anwireddau; Yr hwn ſydd yn *Iachau* dy holl leſcedd; Yr hwn ſydd yn gwaredu dy Fywyd o ddiſtryw; Yr hwn ſydd yn dy goroni a Thrugaredd, ac a Thoſturi. O bydded i'r Nefol ymborth hwnnw, ar hwn i'm porthaiſt mor ddiweddar, roddi bywyd a nerth yn fy Enaid, ac Eneidiau y rhai oll a fuont Gyfrannogion am fi o'r Cymmun Sanctaidd hwn, fel y bo i'n *Ffydd*, *Gobaith* a *Chariad* chwanegu beunydd, ac fel y gallom ninneu oll gynyddu mewn Grâs a Gwybodaeth ein Harglwydd a'n Iachawdwr Ieſu Griſt, *Amen* ac *Amen*. Edrych, *Pſal.* viii. xxii. lxvi. ciii.

Diolchgarwch ar ol y Sacrament i'w ddywedyd gartref.

TI o fy Nuw a gyſuraiſt fy Enaid, ti am cryfheaiſt ac am diddenaiſt a'th Fendithion, ac a lawenheaiſt fy nghalon ac Arwyddion dy Gariad. Mor anrhaethol yw dy ddiddanwch, ac mor hyfryd Effeithiau dy ddaioni i'r rhai a'th ofnant? Ti a groeſewaiſt Bechadur gwael, ar dy Fwrdd dy hun, ac am porthaiſt i a'r Bara a ddaeth i wared o'r Nêf. Ym mha beth wyfi well na'r rhai ni chaniatteaiſt y ffafor yma iddynt? Nid o ran fy Haeddedigaethau; ond o'th herwydd di.

Ti

Ti gan hynny a ogoneddir am gwneuthur daioni i'r annheilyngaf; Ti am gwnaethoſt y dydd hwn yn ſiampl ddedwydd o'th hael Râs a'th Fendith yma. Caniattâ i mi y ffafor yma hefyd, O fy Nuw, fel y gallwyf trwy fy holl fuchedd roddi i ti foliant, a Gogoniant: Fel y bo i ddwys-ymſynniad o'th drugareddau fy ngwneuthur i yn ddiffuant yn ddiolchgar ac fel yr ymddanghoſo fy niolchgarwch gyd a diwydrwydd i rodio ger dy fron di mewn Sancteiddrwydd, Sobrwydd a chyfiawnder, holl ddyddiau fy mywyd.

GWEDDIAU *a* MYFYRDODAU, *y rhai a ellir eu cyſſylltu at y rheini o'r blaen, lle y byddo'r* CYMMUNAU *yn helaeth.*

Ochneidiau i Gymmunwyr Defoſionol.

GOLEUA, O Arglwydd, Lygaid fy Meddyliau a goleuni Ffydd, a Doethineb, fel y gallwyf bŷth edrych arnat ti, fy Mhrynwr megis y ffordd, Gwirionedd a'r Bywyd, ſy'n arwain i fywyd Tragywyddol.---Pwy ydwyfi O Arglwydd, a pheth yw Tŷ fy Nhâd, i ti fel hyn fynghanlyn a'th Fendithion? Trwyddot ti ac eroti i'm Crewyd, a bydd di byth yn ddiddanwch i'm Henaid. Ieſu da, fyngobaith a'm hunig Noddfa, yr wyfi yma yn rhoddi i ti ffyddlon ddiolch am dy holl

Ddio-

Ddioddefiadau, ac yr wyfi 'n erfyn fel y gallwyf gael cyſgod yn dy friwiau yn erbyn fy holl Elynion Yſprydol a Chorphorol: Argrapha eu coffadwriaeth hwynt yn ddwfn yn fy Nghalon, fel y carwyf dydi, ac yn fy holl ddioddefiadau, na bo i mi fyth fod mewn eiſiau o'th Dduwiol gymorth, neu anghofio y peth a ddioddefaiſt troſofi.---Cymmer oddiwrthyf bob hunan-gariad, a dyro i mi gariad perffaith, *i ti yr unig wir Dduw, ac* Ieſu Griſt *yr hwn a anfonaiſt*, fel y gallwyf yn awr fod yn fwy ffyddlon yn fy Nyledſwydd; a n'âd i ddim rhagllaw fy nhroi allan o'm ffordd. O nad allwn i'n waſtad dy gofio di, meddwl am danat ti, ac ymhyfrydu ynot ti yn unig. Yr hwn a'n ceraiſt ni, ac a'n golchaiſt ni a'th werthfawroccaf Waed, oddi wrth euogrwydd ein Pechodau.---O na bae fy Synhwyrau 'n waſtad wedi cau yn erbyn pôb gwagedd, a phechod, fel trwy fod fy Meddwl yn rhŷdd oddi wrth bôb gofal ac ofn diles, y gallwyf ſefydlu fy Nghalon yno, lle y mae gwir lawenydd yn unig i'w gaffael.---O hyn allan mi a'th geiſiaf di, fy unig ddaioni; Fy ſerchau am dymuniadau a ſefydlir arnat ti, *digonol-rhwydd llawenydd ſydd ger dy fron, a'r dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd.*---Fy Ewyllys yr wyfi yn awr yn Gorchymmyn i'th ddwylo di, gan Ewyllyſio fod dy Ewyllys di yn eiddo fi, yr awr hon ac yn dragywydd. Bydd di fy Athro a'm Cyfarwyddwr ymmhob Peth, fel na byddo i mi un amſer wneuthur, neu ddywedyd, Ewllyſio,

neu

neu feddwl dim ond y peth a fydddo yn ôl dy Ewyllys dâ di.

2. DY wâs di ydwy fi, O Arglwydd, O dyro i mi ddealltwriaeth yn ôl dy Air, fel y dyſgwyf dy Orchymmynion, ac y rhoddwyf heibio bob bûdd heblaw hynny o'r Nefoedd! O *Ieſu* hyfryd, Ffynnon pob daioni, Cyfeiria fy Nhraed yn dy ffyrdd, a dyſc i mi wneuthur dy Ewyllys: Rhyddhâ fy Nghalon oddiwrth bôb dilês oſal, a gwâg rodres; ac er fy mod yn byw yma ar y Ddaiar, etto dercha fy ſerchau at bethau Uchod. Mor hyfryd, O Arglwydd, yw dy yſpryd di, mor felus i'm gwefuſau yw Geiriau dy Enau: O nad allwn ni 'n waſtad eu cofio hwynt, i gadw dy Gyfreithiau, gwna i mi farw beunydd i'r Bŷd a'i holl drachwantau, a gwneled dy fawr Gariad ti i'r hyn oll ſydd Ddaiarol ymddangos megis diddim yn fy Ngolwg; Bydd Noddfa i mi yn erbyn fy holl Elynion, ac ymmhob peryglon ymddangos i'm hymddiffyn, bryſia i'm Cymmorth O Dduw, a dywaid wrth fy Enaid; Myfi y dy Iechydwriaeth. Cofia mae ti yw fy Nhâd, a Thrugarhâ wrth fy Enaid truan gorthrymmedig, gwiſca hi â phob Rhinwedd a phortha hi a'th Râs, Canys y mae'n perthyn i Dâd ofalu tros ei blant. Ynot ti'r wyf fi yn byw, *Ieſu* hyfryd er dy fwyn di yr wyf yn Ewyllyſio marw; fel yn fyw ac yn farw y cyfaddefaf byth mai da ydwyt ti, a bod dy drugaredd yn parhau yn dragywydd.

3. O

3. ONad allwn yn awr roddi iti, O Arglwydd yr holl foliant, Gogoniant, a'r Anrhydedd hynny y mai 'r Angylion, a'r Yſprydion Bendigedig yn dy Ogoneddu di yn y Nefoedd! Ond o herwydd nid wyf yn gallu gwneuthur hyn, derbyn o leiaf, fy Nymuniad hwn a'm Hewyllys dâ. Gwared fi, O Dduw rhag pob peth ſydd yn erbyn dy Ewyllys di. O rhynged bodd i ti felly drefnu fy Enaid megis ac y byddo i'th Ogoniant, a'th Anrhydedd: Yr wyf yn Gorchymmyn fy hun i'th ddwylo, ac yn llawn-fwriadu i fod yn ſodlon ymmha ryw fuchedd bynnag y rhyngo fodd i ti drefnu i mi, ac os bydd yn fwy i'th Ogoniant i mi ddioddef yn llawen y bodlonaf i hynny; Nid fy ewyllys i ond yr eiddo ti a wneler. Na fydded dim yn awr yn ddiddanwch i mi ond tydi O Arglwydd *Ieſu*, na dim i'm blino ond fy Mhechodau; a pha beth bynnag arall ſydd yn anfoddhâu dy Dduwiol Fawrhydi, O Fendigedig *Ieſu*, yr hwn wyt Fywyd Tragyw yddol trwy'r hwn yr ydwyf yn byw, ac heb yr hwn marw yr ydwyf, Caniattâ i mi gael yn awr fy uno a thydi, ac ynghofleidiau dy Sanctaidd gariad a'th Dduwiol Ewyllys, i allu gorphwys yn dragywydd. Pa bryd y câf dy weled ti, O hyfryd Iachawdwr! pa bryd yr ymddanghoſaf ger dy fron! Pa bryd y câf dy weled ti yn Nhir y rhai byw? Hyd y pryd hynny, mi a ochneidiaf ac a alaraf am fy Alltudiaeth; gan fod genni chwant i'm ddattod, ac i fod gyda Chriſt.

Oni

Oni bydd y Gweddiau byrrion hyn y gwaſanaethu, hyd oni ddechreuo y Gwaſanaeth ar ôl y Cymmun, chwi a ellwch eu helaethu hwy trwy ddarllain mwy neu lai o'r lleoedd hyn yn canlyn yn y Scrythur, ſef. *Am Ras i garu Cyfraith Dduw.* Pſal. xix. cxix.

Am Fuchedd Dduwiol. Pſal. lxxxv.

Am Iechydwriaeth a llawenydd Tragywyddol. Pſal. xvi. xxiv.

Am Siccrwydd o Ofal a Nodded Duw. Pſal. xxxvii.

Am ddiddanwch Glân Yſpryd Duw. Pſal. xxxiv.

Am Ras o Oſtyngeiddrwydd. Pſal. cxxxi.

Am Dduwioldeb mewn Creſydd. Pſal. xxvii.

Diolchgarwch am Drugareddau Duw. Pſal. ciii. cxxxiii. cxxxviii.

Am Faddeuant Pechodau. Pſal. lxxxv. cvi. cxv.

Am Brynedigaeth trwy Griſt. Pſal. xcviii. cxviii.

Diolchgarwch a llawn fwriad cyn dechreu y Gwaſanaeth ar ol y Cymmun.

FY Enaid bendithia 'r Arglwydd, a chwbl ſydd ynof ei Enw Sanctaidd ef, o herwydd yn awr cefais Drugaredd, Tangneddyf, Diddanwch, a Grâs y rhai ſy'n tarddu o'r Fynnon hon o yſprydol gymmundeb gyda Chriſt: Gwybydded yr holl Fŷd pa beth a wnaeth i'm Henaid; efe a'm gwaredodd i a llawer o'm Brodyr tlodion hyn o Uffren iſod. O herwydd pa ham mi a'th garaf di Sanctaidd *Ieſu*, yn fwy nag y medrwyf

drwyf fi ddatcan, ac a fyddaf byw a marw yn y Grefydd Sancteiddiolaf honno a Ddatcuddiaiſt i mi. O n'âd i mi fyth Halogi y Corph hwnnw, neu lygru'r Enaid honno, ymmha un y mae Iachawdwr y Bŷd yn hoffi preſſwylio! O n'âd i ddim Llwon neu Gelwyddau, Abſennau neu Enllibau, Halogi'r Gwefuſau hynny, dim ſerthedd neu Anghymmedroldeb, lygru'r Genau hynny trwy ba rai y mae 'r Arwyddion Sanctaidd hyn mor ddiweddar gwedi myned; Am ba Arwydd newydd o'th Drugaredd a'th ddaioni, y Molianaf dy Sanctaidd Enw, gan ddeiſyf arnat ti fynghadw yn y gywair ar meddwl diſigl yma, hyd oni lyngcer Angeu mewn Buddugoliâeth, er mwyn dy Fab Ieſu Griſt. *Amen.*

Gweddi yn erbyn Meddyliau drwg a Thrallodus.

NA fŷdd bell oddiwrthyf O Arglwydd fy Nuw, bryſia i'm cymmorth, Canys y mae Meddylieu llygredig yn waſtad yn codi yn fy Mynwes, ac ofnau a gofidion aneirif ſydd yn fy amgylchu o bobtu. Rhynged bodd i ti O Arglwydd graſol yn hyn o drallod gyſſuro fy Enaid ar frŷs, gwaſcara 'r holl Feddyliau tywyll Pechadurus hyn ſy'n codi ynof, trwy dywallt llewyrch dy Râs yn fy Nghalon; Canys ynghyfyngdra, fyngofid hwn, dymma fy unig Obaith a'm Cyſſur, y galla fi gymmeryd Noddfa yn dy ddaioni, roddi f' ymddiried, a bwrw fy holl ofal a'm baich arnat ti, yr hwn ni adewi byth y rhai

rhai a alwant arnat: Dyro i mi amynedd dan y cyfyngderau hyn, a dedwyddol ymwared o'r holl gyſtuddiau hyn o Gorph a Meddwl. Tro attaf, a thrugarhâ wrthif, Canys unig a Thlawd ydwyf, Gofidiau fy Nghalon a helaethwyd: Dwg di fi allan o'm Cyfyngderau. Gwel fy Nghyſtudd am helbul, a maddeu fy holl Bechodau. Cadw fy Enaid, ac achub fi na'm gwradwydder, Canys ymddiriedais ynot, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, *Amen.* Edrych, *Plaſ.* xxv. xvi. xvii. xviii. xx.

Ar Ddydd Natalic Chriſt, *a ſaith Niwrnod gwedi, y gellwch chwanegu y rhain at eich Duwiol Swyddau eraill.*

YR wyf yn Ewyllyſio, O Arglwydd, Fendithio a chlodfori dy Anfeidrol Ddaioni, yr hwn a doſturiaiſt wrth Ddynol-ryw yn ei Drueni mwyaf, ac a ddarperaiſt Feddiginiaeth mor ryfeddol. trwy ddanfon dy unig Anedig Fab i iachau ein Natur lygredig ac arfywiog, a thrwy burdeb ei Ddyſceidiaeth, ac Eſampl ei Fuchedd, ac Aberth ei Farwolaeth, i bwrcaſu i ni ddedwyddwch Tragywyddol. Caniatta, O, Arglwydd i mi allu trwy gymmorth dy Rás a'th Nefol Fendith, beunydd yſtyriaid yr holl bethau mawrion hynny, a wnaethoſt ac a fwriedaiſt er fy iechydwriaeth. Meddiana fy Enaid a phurdeb a Duwioldeb, a phob Chriſt'nogol Radau a Rhinweddau eraill, fel gan fyw yn ſobr, yn gyfion, ac

yn

yn dduwiol yn y Byd Preſennol hwn, y gallwyf o hyn allan drigo gyda thi, O Dad y Trugareddau, a Duw yr holl Diddanwch, yn y Trigfannau hynny o ddedwyddwch a Gogoniant a ddarperaiſt i'r rhai a'th garant di, *Amen.* Edrych, *Pſal.* xix. lxxxix. xlv.

Dydd Paſc, *A ſaith Ddiwrnod gwedi.*

OFENDIGEDIG Ieſu, yr hwn a Orfoleddaiſt a'r allu y Tywyllwch, ac a Orchfygaiſt Uffern a'r Bêdd; yr hwn drwy dy Ogoneddus Adgyfodiad, a yſpyſaiſt allu dy Dduwdod, ac a'th brofaiſt dy hun yn wir Feſſias, ; Cadw fi yn ddiyſcog yn y Ffŷdd hon; a chaniattâ, i holl Weithredoedd fy mŷwyd dyſtiolaethu gwirionedd, a phurdeb fy Fydd, trwy ymarweddiad cyfattebol, y gallwyf godi o Angeu pechod i fuchedd Cyfiawnder; fel megis ac i'm claddwyd gada thi yn fy Medydd, y marwhawyf o hyn allan fy holl chwantau llygredig, a myned beunydd rhagof ymmhob rhinwedd a buchedd dduwiol fel pan ymadawaf a'r fuchedd hon yn dy Ffydd di a'th ofn, y gallwyf gael i mi ddiwedd perffaith a gwynfyd, Ynghorph ac Enaid yn dy Deyrnas dragywyddol, trwy 'r unrhyw dy Fab ein Iachawdwr Ieſu Griſt, *Amen.* Edrych. *Pſal.* ii. lvii. cxi.

Y Sul Gwyn, *A ſaith niwrnod gweddi.*

OArglwydd fy Nuw, yr hwn trwy dy Fâb ein Iachawdwr *Ieſu Griſt* a addewaiſt gynnorthwy dy Lân Yſpryd, i bawb a'i gofynant gennit ti;

ti; Yr ydwyf yn attolwg i ti bob amſer uniawni fy ffyrdd a'm gweithredoedd, Meddyliau a bwriadau fy Nghalon trwy lewyrch dy Lân Yſpryd. Bydded i mi yn Yſpryd Sanctteiddrwydd, i buro fy Natur lygredig, yn Yſpryd Cyngor mewn pôb cyfyngdra; Cyfarwydd yn fy holl amheuaeth, ofn, a phetruſder: Gwroldeb mewn pôb peryglon; Dianwadalwch a Diddanwch i mi dan fy holl Erlidiau a'm dioddefiadau, yn enwedig yn amſer clefyd, ac yn awr Angeu, fel gan gael fy llywio a'm harwain trwy ei dduwiol Yſprydoliaeth a'i gyfarwyddiad, y gallwyf dreiddio trwy'r holl gyfnewidiau a damweiniau y bywyd marwol hwn, hyd oni ddycco ef fi i fywyd tragywyddol, yno i deyrnaſu gyda thi, O Fendigedig *Ieſu* byth bythoedd, *Amen.* Edrych *Pſal.* xxxiv. xlii. xlii. li.

Sul *y* Drindod, *A ſaith Niwrnod gwedi.*

GOGONIANT a fo i ti, O Dduw'r Tâd, am fy nghreu yn ol dy ddelw dy hun yn addas i'th garu di, a'th fwynhau yn dragywydd; am fyngwaredu allan o gyflwr pechod a thrueni, gwedi i mi fyned ar gyfyrgoll, am andwyo fy hunan.---Gogoniant a fo i ti Dduw'r Mâb, am gymeryd arnat waith rhyfeddol Brynedigaeth Dynol-ryw, am i ti fy ngwaredu allan o gaethiwed pechod, ac Arglwyddiaeth Satan; er gorphen y gwaith rhyfeddol hwn o'n Hiechydwriaeth, y deſcynaiſt o'r Nêf, a chymmeraiſt arnat agwedd gwâs, dilynaiſt fywyd truenus, ac a fuoſt farw

farwolaeth ofidus a Melldigedig.---Gogoniant a fo i ti, O Dduw'r Yſpryd Glân, am y doniau a'r Rhadau rhyfeddol hynny a roddaiſt i'th Apoſtolion, ac am y doniau Cyffredinol hynny trwy nerth pa rai yr oedd Chriſt'nogion diragrith ym mhob oes yn gallu gweithio allan eu hiechydwriaeth; am dy Râs di i'w rhagflaenu, a'i hattal, am ddaroſtwng ein dealltwriaeth a'n ſerchau i Ufudd-dod Ffydd a Duwioldeb; am ein Hyſprydoli ni a Meddyliau dâ, ac ennyn Deiſyfiadau dâ yn ein Calonnau; am ein cyfarwyddo ni yn yr holl foddion i ynnill bywyd Tragywyddol. Bendith ac anrhydedd, Diolch a mawl, mwy nac a ſedraf i draethu neu feddwl, a fyddo i ti, O Drindod Addoladwy, y Tâd a'r Mâb, a'r Yſpryd Glân, yn oes Oeſoedd. *Amen.* Edrych *Pſal.* ii. xlvii. lxxii. cx.

Ar ol y Fendith, *Sef Tangneddyf Dduw.*

CANIATTA, O Arglwydd, i ni a'th holl Weiſion, y rhai trwy Ffydd a Sacramentaidd Gyfrannogiad a fuom y dydd hwn yn Cymuno gyda'r Arglwydd Ieſu, allu cael maddeuant o'n Pechodau, a'n cadarnhau mewn Duwioldeb tuag at Dduw ac mewn cariad perffaith tuag at ein Cymmydog; a chael o honom ein gwaredu rhag gallu, a Themptaſiwnau Satan; a chwedi'n llenwi a'th Yſpryd, allu o honom fod yn Aelodau teilwng o Lân Eglwys Griſt, ac o'r diwedd, Etifeddu bywyd Tragywyddol trwy 'r unrhyw ein Harglwydd Ieſu Griſt. *Amen.*

Gweddi

Gweddi yn neilltual ar ol derbyn y Sacrament.

MOR fawr yw dy ddaioni a roddaiſt i gadw i'r ſawl a'th ofnant, ac a wnaethoſt i'r rhai a ymddiriedant yn dy drugaredd, gor bron meibion Dynion. Yr wŷf yn moli ac yn mawrhâu dy Enw mawr Gogoneddus, O Arglwydd, am yr holl aml Drugareddau hynny, a'r diddanwch a roddaiſt i mi, er pan i'm ganwyd, O Arglwydd Dduw, *ti yw fy ymddiried o'm ieuengctyd wrthit ti i'm cynnhaliwyd o'r Bru*; *fy mawl fydd yn waſtad am danat ti*; Eithr uwchlaw pob dim, Bendigedig, a byth Bendigedig fytho dy enw Sanctaidd *am ymddanghoſiad dy Fâb Ieſu Griſt*, Ffynnon a Sail ein holl Happuſrwydd, ac am fy mhorthi i y dydd heddyw (yr hwn wŷf annheilwng o'r lleiaf o'th Drugareddau) a gwerthfawr Haeddedigaethau ei chwerw Angeu a'i ddioddefaint, er mawr ac annherfynol gyſur i mi. Nertha fi O Arglwydd, trwy dy raſlawn gymmorth, i gyflawni ammodau y Cyfammod Sacramentaidd hwnnw, yr hwn y darfu i mi y dydd hwn mo'r gyhoeddus ei adnewddu a'i gadarnhau o'th flaen di, ac wrth dy Fwrdd, fel trwy nerth a grym y Nefol Ymborth hwnnw, y bûm yno yn gyfrannog o hono, y gallwyf *gynnyddu beunydd mewn Grâs, a gwybodaeth o Griſt Ieſu, ac ymhelaethu ymmhob gair da a gweithred*, Ac ymddaroſtwng ynofi'r holl chwantau afreolus a gwyniau llygredig y rhai ſy'n rhyfela yn erbyn yr Enaid; pura fy Nghalon oddiwrth bob meddwl drwg bwriadau drygionus, ac amcanion annuwiol,

ac na âd i Falchder, Gwâg-ogoniant, Hunan gariad, Malais, Câs, neu Ddial, neu ryw Ddrygioni arall deyrnaſu yn fy Ngorph marwol; ond cadw di ef byth ym mwriad fynghalon yn ffyddlon i gyflawni fy holl Addunedau Bedyddiol a'r llawn-fwriadau hyn; fel trwy ddyfal barhâu ymmhob Rhinwedd a duwiol Fuchedd, y gallwyf o'r diwedd fod yn Etifedd y dedwyddwch Anfeidrol a'r Gogoniant hynny a addewaiſt, trwy Griſt ein Harglwydd, *Amen.*

Gweddiau neilltuol am Râs o ddyfal barhad.

ERGLYW Drugaroccaf Iachawdwr, yn Oſtyngeiddiaf yr attolygaf i ti; A bydded i'th Râs byth gynnorthwyo holl ymegnion a bwriadau dy was egwan ac annheilwng. Nid alla fi o hono fy hun wneuthur neu feddwl dim ar ſydd dda, ac yn rhyngu bodd yn dy olwg di. O bydded dy Yſpryd Sanctaidd yn gadwraeth gwaſtadol i mi yn erbyn yr aml Brofedigaethau ſy mor gadarn yn ymladd a mi: Sefydla fy meddwl anwadal, fel na'm arweinir ymaith trwy ymryfuſedd yr Annuwiol, a ſyrthio oddiwrth fy ni yſcogrwydd fy hun, ond fel y bo i mi barhau mewn Gweithredoedd da hyd y diwedd. Tymmhera fy ſerchau a'm dymuniadau, a chadw hwy yn unig a'r cyfryw wrthddrychau, ac ſy'n rhyngu bodd yn dy olwg di. Byddedd dy Ewyllys di yr unig Gyfarwyddwr a meſur fy Eiddo i, fel y bo fy holl obaith, a'm dymuniadau Gyd-gyfarfod ynot ti'n unig, ac na allo dim byth ymddangos yn hyfryd i mi mewn cyffelybiaeth

cyffelybiaeth i Galon bur, a Chydwybod heddychlon, *Dyſc i mi dy ffordd, O Arglwydd, ac mi a rodiaf yn dy Wirionedd: Una fy Nghalon i ofni dy Enw,* Gwna i mi dy Garu di (fel y dylwn) uwchlaw pob dim, a bydded mwyniant dy Anrhydedd, a'th Ogoniant di, yn fwy Gwerthfawr i mi nac Aur, neu Arian, neu ryw fûdd Amſerol arall; canys ti, O Arglwydd wyt fy rhan, ti wyt fy unig orphwysfa, ynot ti'n unig y mae digonolrwydd llawenydd a Gwir fodlonrwydd, ac hebot ti y mae trueni, a phoen. O Caniattâ i mi y dychweliad Bendigedig hyn attat ti, y dedwyddol ddiogelwch hyn, ac yno y câf orphwysfa i'm Henaid yma, ac yn y byd a ddaw. *Amen.* Edrych *Pſal.* lxxxvi. cxix.

Gweddi Foreuol.

GWRANDO fy Ngeiriau Arglwydd: deall fy myfyrdod. Yn Foreu Arglwydd lywi fy llef; Yn Foreu cyfeiriaf fy Ngweddi attat, ac yr edrychaf i fynu, Pſal. v. 1, 3. Holl-alluog Dduw, yr hwn wyt yn preſwylio yn y nefoedd uchaf, ac a fu yn wiw gennit edrych ar y Greaduriaid Gwaelaf yma ar y Ddaear; Yr wyf yn Oſtyngedig yn Addoli dy Dduwiol Fawrhydi, a chyd ac oll alluoedd f' Enaid a'm Corph, yr wy'n derchafu ac yn moli dy enw Sanctaidd am yr holl Drugareddau, a chyſſurau y bywyd hwn, ac am obaith a ſiccrwydd o fywyd Tragywyddol; am fy ymddiffyn i rhag yr holl ddrygau, a pheryglon y Nôs a baſſiodd, ac am fy nghadw'n ddiangol i oleuni y dydd newydd; parhâ

pàrhâ dy drugaredd, a'th ddaioni hwn i mi, ac megis y deffroeſt fy nghorph o Gŵſc, felly dihuna f' Enaid o Angeu Pechod i fuchedd cyfiawnder. Gwared fi, O Dduw, rhag drygau 'r Dydd hwn, a thywys fy Nhraed i ffordd Dangneddyf a Sancteiddrwydd. Nertha fy llawn fwriadau i Gymmeryd pob cyfleuſtra o wneuthur daioni, ac yn ofalus i ymogelyd pob achlyſur i ddrygioni, yn enwedig y Pechodau hynny y rhai trwy naturiaeth a gogwyddiad yr wyf fi debyccaf i ſyrthio iddynt: A phán ſyrthwyf trwy wendid neu nerth rhyw brofedigaeth arall oddiwrth fy Nyledſwydd, gwnâ di mewn Trugaredd fy adgyweirio drachefn a dau parth o'th Râs a'th Lân Yſpryd, i Gael cadarnach ymddiffyn yn erbyn Satan a'i holl ddichellion. Tywallt i lawr dy Raſau a'th Fendithion ar fy holl garedigion (ar fy Nhâd a Mam, ar fy mrodyr a'm Chwiorydd,) ar fy holl Gyfeillion, a Gorchymyn i'th Angylion Sanctaidd am danynt hwy i'w cadw rhag pob pechod ac enbydrwydd: Gwnâ fi'n ddiwyd yn Nyledſwyddau fy Ngalwedigaeth, ac fel y bo i mi yn holl Gyfnewidiau. a damweiniau y bywyd hwn, gwbl ymddaroſtwng i'th Dduwiol Ragluniaeth. Bydded dy fendithion ar fy holl Weithredoedd, a chyfarwydded dy Ddoethineb fy amcanion, fel y bo i holl helynt fy Muchedd ac unig fwriadau fy Nhalon, Gael eu trefnu wrth dy Lywodraeth, i wneuthur yn waſtad y peth ſydd Gyfiawn yn dy Olwg di, trwy Ieſu Griſt

Yma henwch y cyfryw bechodau y mae arnoch fwya eu harſwyd

Griſt, ein Harglwydd. *Amen. Pſal.* iv. xvi. xxiii. lxxxvi.

Pan fyddoch yn myned allan o'ch Stafell.

DEſcynned bendith Dduw arnaf, a phawb ſy'n perthyn i mi, a phreſwylied yn fy Nghalon yn dragywydd, a bendithied fy mynediad allan a'm dyfodiad i mewn yr awr hon, ac yn oęs Oeſoedd. *Amen.*

Prydnhawnol Weddi.

CYfeirier fy Ngweddi, *O Arglwydd, ger dy fron fel yr offrwm Prydnhawnol*, Pſal. cxli. 2. O Arglwydd, ein Tâd Nefol, Holl-alluog a Thragywyddol Dduw, Gogoniant pa un nid eill Nêf y Nefoedd ei Gynnwys, Edrych i lawr o Orſeddfaingc dy Fawrhydi, a gwel dy wâs Annheilwng yn ymoſtwng wrth Draed dy drugaredd yn oſtyngedig yn cyfaddef i ti wagedd a drygioni fy holl fuchedd, yn enwedig yr eſceuluſtrau a throſeddiadau fy Nyledſwydd y Dydd hwn, ymmha un y darfu i mi mor ddiweddar bechu yn erbyn dy dy anfeidrol Fawrhydi a'th ddaioni, ac mor ddwys archolli fy Enaid fy hun a'r rhain a'm holl droſeddiadau eraill, *Yr ydwyf yn ddifrifol yn Edifarhau, ac yn ddrwg gan fy Ngalon dros fy ngham Weithredoedd hyn, eu baich ſydd anrhaith i oddef: Trugarhâ wrthyf drugaroccaf Dád, er mwyn dy Fâb Ieſu*

Yma henwa enwedigol bechodau a diffygiadau y dydd:

Ieſu Griſt, maddeu i mi yr hyn oll a aeth heibio, a derbyn fy Ngweddiau hyn a'm herfynnion; trwy haeddedigaethau, a chyfryngiad yr unrhyw, ein Cyfryngwr a'n Pryniawdwr. Ac er fy mod yn Annheilwng trwy f' amrafaelion bechodau a'm Hanwireddau i offrwm i ti un Aberth o Foliant a Diolch, Etto mi a attolygaf i ti gymeryd fy Rhwymedig ddyled hyn, fy niffuant ddiolch am dy holl ddaioni a'th drugaredd i mi ac i holl Ddynol ryw, yn deillio yn gwbl oddiwrth dy Haelioni, ac yn llwyr gwedi eu bwriadu er fy Naioni, ac yn enwedig am fy nghadw y dydd hwn ynghanol cynnifer o beryglon ſy'n digwyddo i'm cyflwr, ac oddiwrth gynnifer o ofidiau ſydd ddyledus am fy mhechodau. Ti yw fy Nghreawdwr, O fy Nuw; a'm Noddwr; ti wyt ddiben eithaf fy hanfod a phen perffeithydd fy Natur; Tan gyſgod dy Adennydd, y mae gwaſtadol orphwysfa, ac o lewyrch dy wyneb-pryd y tardda llawenydd a dedwyddwch Tragywyddol, i ba un y bytho'r Gogoniant, a'r Anrhydedd, byth bythoedd, *Amen.*

Yma henwa enwedigol fendithion a Thrugareddau.

A thi O Arglwydd, trwy ba un y Teyrnaſa Brenhinoedd, ac y barna y Penaethiaid gyfiawnder, Bendithia ein Graſuſaf Arglwydd Frenin *Sior*, Frenhines *Charlotte*, a'r holl Frenhinol Deulu: Bendithia fy holl Gyfneſeifiaid, Cyfeillion a'm Caredigion Cymwynaſgar; Ymddiffynned dy Ra-

gluniaeth

gluniaeth hwynt a'i heiddo rhag pob drwg ac enbydrwydd, a gwobrwya hwynt a'r y ſeithfed i'w Monwes am yr holl ddaioni a wnaethont, neu a ddywedaſant am dana fi: Rhynged bôdd i ti hefyd O Arglwydd, (yn Nwylo pa un y mae dibennion bywyd ac Angeu) gymmorth, helpio, a diddanu pawb a'r ſydd mewn perygl, angenoctid a thrwblaeth, pawb ac ſy ofidus tan ryw boen neu glefyd, corphorol brofedigaeth, neu ſydd yn gyfyng arnynt mewn meddwl, Cymmorth y cyfryw yn ôl angenrheidau pob un gan roddi iddynt amynedd dan eu dioddefiadau, a dedwyddol ymwared o'i holl gyſtuddiau. Daroſtwn ynof ddrwg Yſpryd digofaint a Dial, a threfna fy Nghalon yn Amyneddgar i ddioddef gwradwydd a cham, ac i fôd yn barod nid yn unig i faddeu, ond hefyd i wneuthur dâ tros ddrwg, fel y gwypo pob Dŷn fy mod yn Ddiſcybl i Griſt: Ac yn ddiwaethaf, O Arglwydd, gan ddarfod i ti Ordeinio 'r dydd i lafurio, a'r Nôs i gymeryd ein eſmwythdra, ac megis yr wy 'n dy foli am drugareddau 'r Dydd, felly yr wy'n oſtyngedig yn erfyn am barhâd dy raſlon ymddiffyn i mi y Nôs hon. Gwerſylled dy Angylion Sanctaidd o amgylch fy Ngwely, fel gwedi fyngwared yn ddiogel rhag pob perygl ac enbydrwydd y Nôs hon, a'm ſirioli a chŵſc cymmhedrol, y gallwyf gyflawni Dyledſwyddau fy Ngalwedigaeth a pharhau'n ffyddlon mewn Sanc-

Yma benwa y rhai enwedigol.

Yn enwedig y ſawl tros ba rai y dymunir i'n gweddiau yr awr hon.

teiddrwydd a phurdeb buchedd holl Ddyddiau fy mywyd, i'th Anrhydedd a'th Ogoniant trwy ein unig Gyfryngwr a'n Dadleuwr, Iesu Grist ein Harglwydd, *Amen*. *Ein Tâd*, &c.

Pan orweddoch yn eich Gwely.

MEWN heddwch y Gorweddaf, ac yr hunaf, canys ti Arglwydd yn unig a wnei i mi drigo mewn Diogelwch; i'th Law y gorchymmnnaf fy Yspryd, fy Enaid a'm Corph, gwaredaist fi O Arglwydd Dduw y Gwirionedd.

DIWEDD.

24 DE 67

Y Llyfrau Cymraeg ac ſydd ar werth gan STAFFORD PRYS, *Printiwr a Gwerthwr Llyfrau yn agos i* Farchnad y Garddwyr *neu'r* Green Market, *yn y* MWYTHIG.

Y Llyfr Gweddi Gyffredin yn gymwys i'r llogell neu 'r bocced.

Gwybodaeth o iechydwriaeth yn werthfawr yn awr Angeu wedi ei wirio mewn pregeth, a Bregethwyd *Ionawr* 4, 1759, ar farwolaeth y Parchedig Mr. *Hervey*, o *Weſton Favel*, yn Sir *Northampton*, gan *W. Romaine*, A. M.

Drych y prîf Oeſoedd gan y Parchedig Mr. *Theo. Evans*.

Cas gan Gythraul, neu annogaeth i bawb ochelid myned i ymgynghori a deweiniaid Brydwyr na Chonſyrwyr.

Dewiſol Ganiadau yr oes hon, O gaſgliad *H. Jones*, o *Llangwm*.

Myfyrdodau Duwiol i'n Cymmhwyſo Erbyn awr Angeu. Byw i mi yw CRIST, a marw ſydd Elw; Canys er i'r Corph ddymchwelyd i'r ddaear, etto 'mae'r Enaid yn dychwelyd at Dduw yr hwn a'i rhoes.

Pregeth yn dangos beth yw Natur ac Anian y Pechod yn erbyn yr Yſpryd Glân, gan *Theo. Evans*, A. M. o *Llangamarch*.

Y Llyfr Plygain, neu'r Primer Cymraeg.

Ymbaratoad tu ag at ddedwyddol a thragwyddol Wynfyd y Nefoedd, neu Myfyrdodau ar bob dydd o'r wythnos.

Help i Ddarllen yr Yſgrythur Gyſſegr Lan, neu Reolau i Ddarllen y Bibl yn fwy buddiol ac i Ddyſcu a chyfarwyddo y rhai annyſgedig a'r gwannaf eu deall, y rhannau o'r Hên Deſtament a'r Newŷdd ſy fwya cyfaddas iddŷnt hwy Ddarllen, a mwya cymhwys i'w hamriw angenrheidiau a'u dealltwriaeth. Wedi ei gyfieuthu ir Gymraeg allan or Hôll Ddyledſwydd Dyn (ſef y Newŷdd) gan *E. W.* Gweinidog Eglwys Loegr.

Dictionary, neu Geir Llyfr, y Cymraeg o flaen y Saeſoneg gan *Thos. Jones*, at ba un y chwanegir llawer o eiriau o Dictionary y Parchedig Mr. *Richards*.

Taith *Criſtianes*, neu'r ail Rhann o daeth y Pererin, gan *John Bunian*, wedi ei Gyfieuthu ir Gymraeg, gan *John Edwards*, *Glynceiriog*.

STAFFORD PRYSE,

PRINTER, BOOKSELLER, *and* STATIONER,

Near the *Green-Market*, in SHREWSBURY.

SELLS Books in all the Branches of Polite Literature; Magazines, with all other Periodical Publications; likewiſe Bibles and Common Prayers of all Sizes, Teſtaments, Pſalters, Spelling-Books, *&c. &c.* Writing-Paper of all Prices, Ink-ſtands; Wax; Wafers; Sand and Sand-Boxes; Pencils, Pens and Ink, Indian and Japan Ditto; Shop-Books, Accompts-Books, Pocket-Books, Letter-Caſes, Muſical Inſtruments with Books; Violin-Strings, Copies, Slates, Slate-Pencils; Spectacles for all Ages; Maps and Pictures of all Sorts.

Anderſon and *Hooper*'s *Scotch* Pills; Eſſence of *Water Dock* for the Scurvy; Elixir *Bardana* for the Gout, with the only truly prepar'd Original *Daffy*'s Elixir.

Books Bound in all the various Bindings at the loweſt Prices, and Copies neatly Printed, and carefully Corrected.

24 DE 67